

ECO'R WYDDFA

Rhif 67

CHWEFROR 1982

Pris: 15c

MAE LLAW Y GAEAF OER . . .



"Yn cloi pob nant" . . . a rhaeadr! Dyma'r olygfa yn y Ceunant Mawr, Llanberis, yn nechrau Ionawr. Ein diolch i Islwyn L. Jones am ddal naws y gaeaf, ei harddwch a'i dawelwch, yn ogystal â'i erwinder yn y llun yma.

Nid yw'r rhaeadr yn y Ceunant Mawr yn rhewi mor aml a hynny, meddai pobl Llanbêr. Tybed oes rhai ohonoch yn cofio pryd oedd y tro diwethaf i hyn ddigwydd?

CODWR PWYSAU ADDAWOL



Gwynfryn Williams o Benisa'rwaun yw'r bachgen cryf a gydag ef yn y llun mae Len Jones (chwith) ei hyfforddwr a Ken Williams, ei dad. Trowch i dudalen 5 am y manylion a lluniau eraill.

ANRHYDEDDU HUGH RICH

Ymysg rhestr anrhydeddau blwyddyn newydd y Frenhines dyfarnwyd medal y Gymanwlad (B.E.M.) i Hugh Richard Jones, ceidwad a chynorthwydd technegol Amgueddfa Chwarel Gogledd Cymru tan yn ddiweddar iawn.

Mae'r anrhydedd yma yn rhoi pleser diffuant iawn i'r holl ardalywyr ac i gylch eang tu allan i'r ardal hefyd. Os oes unrhyw unigolyn yn haeddu anrhydedd Hugh Rich (fel yr adwaenir ef gan bawb) yw'r gŵr hwnnw. Mae wedi rhoddi ei oes i'r diwydiant - dyma lle'r oedd ei fryd a'i ddiddordeb ar hyd y blynyddoedd. Gadawodd Ysgol Brynrefail yn 15 oed a chychwyn ar ei yrfa fel prentis yn y Gilfach Ddu - Chwarel Dinorwig. Daeth i fyw i Lanberis o Bontrythallt, Llanrug pan oedd yn 18 oed, ac ar ôl y rhyfel penodwyd yn fforman ac yna yn 'Supervisor' - a dyna gyrraedd y pinacel - 'roedd yn brif beiriannydd y Chwarel - a daliodd y swydd hyd 1969 pan gauwyd y chwarel. Wedi'r cau cafodd ei gyflogi gan y derbynnnydd i ofalu am yr arwerthiant. Gwelodd ei gyfle i arbed llawer iawn o'r peiriannau, - y celfi cywrair - a'r patrymau. Dihafal oedd y crefftwaith a wnaed gan y gweithwyr yn y Gilfach Ddu ar hyd y blynyddoedd.

Yn ei ddull hamddenol ei hun, a'i weledigaeth i'r dyfodol bu'n llwyddiannus i gadw cyfran helaeth



o'r celfi a gwelodd gyfle newydd i sefydlu Amgueddfa yn Y Gilfach Ddu. Prynwyd y lle gan y Cyngor Sir ac yn ddiweddarach cymerodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ofal am yr Amgueddfa a chafodd Hugh Rich y cyfle i fod yn Swyddog i ofalu am y cyfan hyd ei ymddeoliad ym mis Mawrth 1981, ar ôl iddo roddi 55 mlynedd o wasanaeth yn gysylltiedig â Chwarel Dinorwig. Mae'r amgueddfa yn denu miloedd - 630 o filoedd y llynedd - ac i'r gŵr yma y mae llawer iawn o'r diolch fod y celfi a'r crefftwaith yma i'r dyfodol eu gwerthfawrogi.

Flwyddyn union yn ôl anrhydeddwyd Mr Gwynfor Williams a Mr Bert Thomas - dau ŵr arall o Lanberis.

CADAIR OLWYN I'R HEN A'R ANABL



Mae ymdrechion plant a phobl Llanrug wedi ei gwneud yn bosibl i'r henoed a'r bobl anabl lleol fwynhau'r cyfle o gael dod allan o'u tai a chael symud unwaith eto o gwmpas eu pentref. Fel canlyniad i ymdrechion plant yr ysgol gynradd, pwyllgor y Carnifal a pharti Clychau'r Grug, llwyddwyd i brynu cadair olwyn. Bydd hon ar gael i unrhyw un sydd ei hangen.

Ffion Williams, safon tri, gafodd y syniad gwreiddiol. Gwyddai Ffion, meddai hi, am gymydog oedrannus, a hoffai, pe bai modd, fynd â hi allan mewn cadair.

'Roedd y Cwnstabl Arthur Rowlands yn yr ysgol pan gyrhaeddodd y gadair. Canmolodd yn fawr waith da yr ysgol a'i chyfeillion.

Yn y llun mae Mr Rowlands yn ysgwyd llaw â Ffion (yn y

gadair). Tu ôl iddynt mae Morfudd Roberts, Lis Roberts ac Owena Parry yn cynrychioli Pwyllgor y Carnifal a Mair Hughes ac Olwen Hughes ar ran Clychau'r Grug.

CYHOEDDIAD PWYSIG

Ein bwriad oedd tynnu gwobrau cyntaf Clwb Cefnogwyr Eco'r Wyddfa yn ystod y ffug-eisteddfod ar Chwefror 5. Ond siomedig hyd yn hyn yw'r ymateb i ymaelodi â'r Clwb. Felly, yn anffodus, bydd yn rhaid gohirio'r tynnu. Bydd blwyddyn y Clwb yn dechrau pan fydd gennym ddigon o aelodau.

Apêl daer unwaith eto: ymaelodwch yn fuan, os gwelwch yn dda.

ECO'R WYDDFA

Rhif 67
CHWEFROR 1982

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Thomas, Brony Nant, Pont-
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun. (Penyllyn 438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
Padarn 561

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Bwthyn Gwyn, Ffordd Deiniol,
Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinoirwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Tŷ'r Ysgol. (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun (Penyllyn
329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar

CHWEFROR 25

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

CHWEFROR 17

os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

TRYCHINEB DINORWIG

Syr,
Darllenais gyda diddordeb llythyr
fy nghyfnither, Mrs Eluned
Owen, Birmingham, parthed
boddi deuddeg o aelodau Eglwys
St Mair, Dinorwig ym Mhwlheli
yn 1899, yn eich rhifyn Rhagfyr.
Nid ydwyf wedi ei gweld ers pan
oedd yn fabi yn Nhy'n y Fawnog,
a minnau ddim llawer mwy —
collwyd cysylltiad rywsut neu'i
gilydd ar ôl iddynt fynd i
Firmingham. Nid oeddwn yn
gwybod am y Wisg Fedydd.
Pump o deulu fy ewythr Owen —
Owen Thomas, Ty'n y Fawnog, a
foddwyd. Fy Ewythr ei hunan,
Elen ei wraig, ei ferch Elen (Nel)
a'i fab Owen Parry, a hefyd
perthynas i'w wraig o Fethesda,
William Edward Williams.

'Roedd fy chwaer hynaf hefyd
wedi meddwl mynd efo'r trip ond
perswadiwyd hi i beidio mynd ar
y munud diwethaf, ac addawodd
Nel, ei chyfnither ddod â phêl
goch iddi o Bwlheli i leddfu'r
siom, mae'n debyg. Dywedid
bod yr addewid wedi ei chadw a
bod y bêl goch yn nofio ar wyneb
y dŵr ar ôl y drychineb. Clywais
fy nhad lawer gwaith yn dweud
fel y bu iddo ef a Richard Jones,
Tan yr Aswy, gerdded i
Gaernarfon ar y bore Sul i ddal
Mail 6 o'r gloch y bore i Bwlheli i
dystio adnabyddiaeth o'r cyrff.

Amgaeaf faled gan Abel Jones
(Bardd Crwst) am yr achlysur.
Nid oes gennyf syniad pwy
ydoedd, ond mae'n gwneud un
camgymeriad. Richard, ac nid
Robert oedd enw un o hogiau
Tanybwllch a foddwyd. Enwyd eu
nai, Richie Thomas Williams,
Ffordd Deiniol, Deiniolen, a fu
farw rhyw dair blynedd yn ôl, ar
eu hôl.

Sonia Eluned hefyd am
briodas ei thad, fy Ewythr
William â Chatherine Bryn Golau.
Tybed a oedd Leus yn ei henw
hefyd? 'Roedd fy nhad Griffith yn
gweithio yn Nhwl y Clawdd gyda
fy nhaid yn y cyfnod hwnnw a fy
ewythr William yn gweithio ym
Mhen Rhydd Bach, a chlywais fy
nhad lawer gwaith yn adrodd
hen rigwm, rwyf yn meddwl, o
waith fy ewythr William. Dyma
fo.

Mae nhad a Guto mrawd
yn gweithio yn Nhwl y Clawdd
A finnau yn gweithio ym Mhen Rhydd
Bach
Er mwyn cael bwyd i Leus a'r hogan bach

H. Thomas
Llanor

Ow, Fis Gorphenaf, a'r dydd cyntaf,
A dydd Sadwrn ydoedd hi,
Y daeth Excursion o Lanberis
Er cael gwel'd y mor a'i li,
A chyrhasant dref Pwlheli
A phawb yn llawen ac yn llon,
Heb ddrychfeddwl am 'run ddamwain, —
A chladdu deuddeg dan y don!

Cychwyn wnaethant yn y boreu, —
Pawb yn wŷch a hardd eu gwedd—
Heb 'run meddwl na dychymygl
Byddent yn eu dyfrllyd fedd!
Llogi cwch er cael peth morio
Wnaeth y truenusion hyn,
Y mor oedd iddynt yn beth dyeithr,
Y ddamwain wna y wlad yn syn.

Meddwl am y teulu cyfan
Wedi'u colli ar fyr o'n gwlad,
John Hughes a'i ddwy chwaer hefyd
Galarus dywedyd, a'u tirion dad,
Clogwyn Gwyn oedd eu hoff cartref
Lle mae wylo a galar dwys,
Wrth adgofio am 'ranwyliaid
Yn sydyn aethant dan y gwys.

A dau o frodyr, Thomas, Robert,
Tanybwllch eu cartref hwy;
William Edwards a Charles Davies, —
Y rhai na welwn eto mwy!
A John Hughes oedd under agent,
Yn Dinorwig 'roedd efe,
A Davies ieuainc, a Bronelidir,
Oedd cydymaith gydag e'.

Cwmpodd tri-ar-ddeg ar unwaith
Pan y trodd y cwch i'r mor,
Ond y cychwr allai nofio,
Dyma ydoedd 'wyllys lôr:
Plant ysgolion o'r cymdogaeth
Ddaethant ar eu pleser daith,
Ond i'r deuddeg anwyl yma
'Roedd diwedd yn y dyfnder llaith.

Tref Pwlheli sydd yn teimlo,
Ond eto pwy sy'n teimlo mwy?
Ow! holl ardal fawr Llanberis
A'u holl anwyl geraint hwy;
Portdinoirwic sydd mewn galar,
A holl ardal Cwmyglo,
Brodyr a chwiorydd iddynt
Rhaf sydd bron a myn'd o'u co'.

Mae holl Arfon yn dwys deimlo
Am eu bod ar weithred dda,
Ac yn ddeiliaid parchus, ffyddlon,
Ceisio pleser canol ha
O! bydd cofio trwy Lanberis
Gan rhyw lu yn hir am hon
Brawd a chwaer a mam yn wylo,
Am anwyliaid dan y don.

Ow! Gorphenaf, gwnest waith chwerw,
Dwyn gofidiau i lawer ty;
Gyru llawer o berth'nasau
I drwm alar, gofid du,
Mamau'r nos yn methu cysgu,
Methu rhoddi i lawr eu pen,
Brodyr anwyl a chwiorydd,
Ewyllys Duw oedd hyn, Amen.

Abel Jones
(Bardd Crwst)

Llythyr o ONTARIO, CANADA

At Olygydd Eco'r Wyddfa
Annwyl Syr,
Y mae Eco'r Wyddfa newydd
gyrraedd yma. Yr wyf innau yn
'curo'r haearn tra mae'n boeth'
ac yn brysio i anfon gair atoch
heb oedi i ddiolch amdano ac i
ddweud y fath bleser a gefais
wrth ei ddarllen. Y mae pob rhan
ohono yn ddiddorol ac yn
amrywiol. Ond yr hyn sydd wedi
rhoi mwyaf o fwynhad i mi ydyw
gweld fod y masnachwyr wedi
hysbysebu eu nwyddau yn
Gymraeg. Dyma'r Gymraeg yn
dwad yn iaith masnach. Dim un
gair o Saesneg yn Eco'r Wyddfa.
Fedra'i ddim dweud mewn
geiriau y fath lawenydd yw hyn i
mi. Y mae'r ffaith yn anhygoel. O
fy hen Gymraeg annwyl! Yr
ydym ni yn byw yn Ontario ers
pum mlynedd ar hugain a
theimlaf hi braidd yn anodd
ysgrifennu Cymraeg bellach.
Cywirwch fi os gwelwch yn dda.
Peth arall dynnodd fy sylw yn
arbennig oedd yr erthygl a llun
Cybi. Ef oedd ein postman pan
oeddwn yn byw yn Llanybi.
Byddai fy chwaer a minnau yn
mynd i dŷ Cybi i hel cyrains duon
bob blwyddyn. Yr oedd yr hanes
am y tafleisydd gan Cybi yn yr
erthygl Agor Ffiniau'r Gorffennol
yn ardderchog.
Well i mi ddweud wrthyh pwy

ydwyf — Wel chwaer i John
Roberts Williams, Minffordd,
Llanrug.

Dymunaf ichwi i gyd Flwyddyn
Newydd Dda a llwyddiant mawr i
Eco'r Wyddfa a phob papur bro
arall. Maent yn gwenud gwaith
ardderchog dros yr iaith
Gymraeg ac er mwyn Cymru.

Yr eiddoch

Prydwen Roberts (Mrs)

R.R. 1 Denfield

Ontario

Canada NOM 1P0

Y DAWEL NOS

Annwyl Syr,

Daw Eco'r Wyddfa yma er y
cychwyn. Caf fwynhad arbennig
wrth ddarllen bob gair ohono.
Diolch amdano.

Hoffwn ddweud fy mod wedi
mwynhau'r ysgrif am 'Y Dawel
Nos' gan un oedd yn yr hen ysgol
ym Mrynrefail yr un amser â
finnau. Y mae'r ysgrif yn llyfn a
difyr gan M.L.I. Williams.

Un o'm cyfeillion o Lanberis
sef y diweddar Gwilym Owen
Jones, B.A., Elidir View oedd
cyfieithydd 'Y Dawel Nos'. Bu
Gwilym yn athro ysgol Troed yr
Allt Pwlheli am rai blynyddoedd
cyn iddo fynd i Ysgol Gyfun
Llanrwrst fel athro Cymraeg hyd
ei farw rhyw ddwy flynedd yn ôl.
Teimlwn, wedi cael ysgrif mor
ddiddorol, yr hoffech wybod mai
un o hen hogiau Brynrefail oedd
y cyfieithydd. Cofiaf sôn wrth
Gwilym am y cyfieithiad a'i sylw
ef oedd "Y peth mwyaf proffidiol
wnes erioed."

Gyda chofion a dymuniadau
cywir at 1982.

Yr eiddoch,
J. Moxen,
Bwthyn,
Llanbedrog,
Pwlheli.

MAGA

Cynhelir cyfarfod
cyffredinol Mudiad
Addysg Gyflawn Arfon nos
Lun 1af Chweffror yn yr
Institiwt Caernarfon am
7.30. Croeso cynnes i
bawb.

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU

T CEPAS

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

'Nabod y Gelyn

Caewyd ffatri Bernard Wardle, Peblig, ers rhyw ddeunaw mis ac mae'r rhan fwyaf o'r 322 o weithwyr a daflwyd ar y clwt un ai'n dal ar y dŵl neu wedi gorfod hel eu pac am 'i ffwrdd yna'. Gydag ugain y cant heb waith yn yr ardal hon 'does' na fawr o obaith am swyddi yn y dyfodol; yn hytrach, gwaethgu mae hi gan fod y gwaith ar gynllun trydan Dinorwig yn dod i ben.

Nid oedd yn rhaid i Peblig gau. 'Roedd' na ddigon o alw am gynnyrch y ffatri ac 'roedd' y gweithwyr yn gwneud elw cyson i'r perchenogion. Er hynny, ni lwyddod y protestio lleol i arbed y swyddi. Os ydym am amddiffyn swyddi lleol yn llwyddiannus yn y dyfodol mae gofyn i ni ddeall pam y caewyd Bernard Wardle; rhaid dysgu a 'nabod y gelyn'. Mae llawer o'r hanes yn wybyddus eisoes ond cafodd DRAENOG fwy o wybodaeth am yr un dyn, Graham Ferguson Lacey, a fu'n bennaf gyfrifol am roi ergyd i 322 o deuluoedd lleol. Defnyddiwyd adroddiad John Lovering, 'Gwynedd - Sir Mewn Argyfwng' - yn helaeth ar gyfer yr hanes hwn yn ogystal â rhif 11 o'r Ffawr Goch, papur y Mudiad Gweriniaethol Sosialaidd.

ASSET STRIPPING

Hyd at ganol y chwedegau 'roedd cwmni Bernard Wardle ar frig ton o alw am ffabrig i'r diwydiant moduron. Erbyn dechrau'r saithdegau dechreuodd newidiadau mewn ffasiwn wneud defnyddiau PVC Bernard Wardle yn llai cystadleuol. Serch hynny cafwyd sicrwydd gan y cwmni fod dyfodol y gweithwyr yn saff. Yn 1978 prynodd cwmni eiddo o'r enw 'Birmingham and Midland Counties Trust Ltd.' gyfranddaliadau yng nghwmni Bernard Wardle. Mynegwyd pryder ynglŷn â hyn oherwydd nid yw'n anghyffredin i ddelwyr cyfrwys a diegwyddor brynu cwmnïau, dwyn yr asedion gwerthfawr ('asset stripping') ac yna cael gwared o weddillion y cwmni. Cafwyd datganiad, fodd bynnag, gan reolwyr Bernard Wardle yn dweud nad oedd dim i'w boeni yn ei gylch. Yr oedd Birmingham and Midland wedi prynu deg y cant o gyfranddaliadau Bernard Wardle 'ond ni ragwelid y byddai'r buddsoddiad hwn yn fwy na 25 y cant o'r cyfranddaliadau.' Mewn geiriau eraill dim ond cyfran fechan y byddent yn berchen arno ac nid oedd perygl i ffatri Caernarfon gael ei defnyddio fel rhan o'r gêm eiddo. Ond, y gwir amdani, erbyn Chwefror 1980 'roedd 30 y cant o gyfranddaliadau Bernard Wardle wedi eu prynu'n llechwraidd gan gyfarwyddwr Birmingham and Midland, sef, dihiryn yr hanes, Graham Ferguson Lacey.

ADDEWID FFUG

Yn y cyfamser 'roedd Bernard Wardle wedi prynu ffatri yn Earby, Swydd Gaerhirfryn a dywedwyd y byddai gwario £1.88 miliwn yno yn gwneud Bernard Wardle yn grŵp mwy effeithiol. Mewn datganiad sy'n werth ei gofio dywedodd Bernard Wardle "the long term benefits for all of us will be the increased security of employment inside a stronger and more progressive group of companies." Wrth gwrs, yn arwyddocaol, ni ddywedai'r datganiad ymhle y byddai sicrwydd gwaith. Erbyn 1980 'roedd angen buddsoddi i wella'r

offer yn ffatri Bernard Wardle yng Nghaernarfon os oedd honno am ffynnu i'r dyfodol. 'Roedd hefyd ffatri yn Swydd Gaerhirfryn nas defnyddid yn llawn. Yna, derbyniwyd cynnig gan y brawd Ferguson Lacey i brynu'r holl gwmni.

ARIANGARWYR

Cynigiai Lacey 33 ceiniog am bob cyfranddaliad oedd yn werth 28½ ceiniog yn ôl y farchnad stoc. Un o'r rhesymau pam y cynigiodd fwy na gwerth y farchnad oedd, yn ôl pob tebyg, oherwydd fod Bernard Wardle erbyn hyn wedi prynu llawer o asedion. Mewn gwirionedd pan gynigiodd 33 ceiniog am bob cyfranddaliad 'roedd gwerth asedion y cwmni yn 43 ceiniog y cyfranddaliad. 'Roedd felly'n cynnig ychydig mwy na gwerth y cwmni fel cwmni cynhyrchu ond llawer llai na gwerth y cwmni pe gwerthid yr asedion. Bu i John Sharpe, prif weithredwr Bernard Wardle, argymhell derbyn cynnig Lacey. Ddeuddydd ar ôl derbyn y cynnig cyhoeddodd cwmni Bernard Wardle bod ffatri Peblig i'w chau.

Cyfrinach y cwmni yw beth yn union ddigwyddodd ond mae'n bur amlwg mai 'asset stripping' oedd ar droed. Cwynodd Dafydd Wigley i'r Gyfnewidfa Stoc ynglŷn â natur amheus cynnig Ferguson Lacey gan ddatgan fod Peblig yn cael ei chau i fodloni mympwy ariangarwyr oedd yn ceisio gwneud elw cyflym.

AR Y CLWT

Ond cau a wnaeth Peblig gan ychwanegu 322 at y ciw dŵl. Cadwyd at yr addewid a wnaeth Wardle yn 1978 ynghylch sicrwydd gwaith - hynny yw, i'r rhai oedd yn barod i symud i ffatri swydd Gaerhirfryn! Nid mater o gwmni yn cynhyrchu nwyddau nad oedd galw amdanynt mwyach yw stori Bernard Wardle fel yr haerau'r Rheolwr-Gyfarwyddwr ym Mheblig. Yn hytrach, fe'i daliwyd yn rhwyd y sefydliadau ariannol mawr. 'Roedd ariangarwch Graham Ferguson Lacey yn rheoli - 'doedd ots yn y byd am gynhyrchu nwyddau, am

dros 300 o weithwyr a'u teuluoedd, am les ardal, gwreiddiau pobl a'u diwylliant, a'u hiaith. Yn y drefn gyfalafol sydd ohoni pobl fel Graham Ferguson Lacey sy'n gwneud y penderfyniadau pwysig ynglŷn â'n bywydau ni. Rhith ydi'r rhyddid a'r democratiaeth ffug mae Lacey a phobl o'r un dosbarth ag ef mor barod i'w amddiffyn. Mewn trefn iawn buasai democratiaeth yn cyfrif; fel ag y mae hi nid oedd dymuniadau y mwyafrif yn cyfrif yn achos Peblig.

DEWIN DRWG

Pwy ydi'r G.F. Lacey yma? Cyn-werthwr paent o Solihull yw'r dewin drwg hwn sydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi ymyrryd mewn 17 o gwmnïau. Nid oedd ei ymyrraeth yn fantais i'r cwmnïau yn aml, heb sôn am y gweithwyr, ond, yn sicr ddigon fe elwodd Lacey. Er enghraifft, dyblwyd ei elw yn Arbuthnot Latham, yn Rivington Reed, yn Weston Evans ac yn y blaen. Bellach mae'n gwario tipyn o'i amser yn Unol Daleithiau'r Amerig. Mae un fenter ddiweddar gwerth £80 miliwn i gyfuno'i gwmni ef NCC Energy gyda Simplicity Patterns o America yn werth o leiaf £20

miliwn i Lacey. (Ni wyddir hyd yma beth yn union yw cysylltiad Lacey â'r diwydiant niwcliar).

Yn ôl pob sôn mae cydwybod Lacey yn bur esmwyth. Bellach, mae'n un o'r 'born again evangelists' bondigrybwyll. Go brin fod teimladau o frawdgarwch efengylaidd tuag at gyn-weithwyr Peblig yn ei daro wrth iddo groesi'n ôl ac ymlaen dros yr Iwerydd yn Concorde. Mae'n gyfaill personol i Billy Graham ac yn wyneb cyfarwydd yng nghiniawau-gweddi Ronald Reagan. Mae'n siŵr fod gwneud elw enfawr o gynhyrchu arfau niwcliar a'r angen am ryfel 'sanctaid' i achub 'rhyddid' Reagan, Lacey a gweddill eu dosbarth o gyfoethogion yn rhan o ymgomio cwrtais Mr Lacey bellach.

DAW DYDD

Ond mae Lacey wedi gadael marc ar ei ôl yn yr ardal hon. Dysgodd rhai o weithwyr Peblig wersi o'u profiadau ac felly eraill ohonom sy'n deyrngar i'r dosbarth gweithiol yn y cylch. 'Rydym yn dysgu, 'rydym yn siŵr o gofio. Mr Graham Ferguson Lacey, daw'r dydd pan y byddwn yn dy 'sgubo di a dy siort o'r naill du. Fe fydd nod gwell nag ariangarwch i'n trefn ni.

OES 'MA BOBOL

- Cyflwyniad diweddaraf Theatr Bara Caws



(Llun: Derec Owen)

Rhaglen ydi hon wedi ei seilio ar broblem cartrefi yng Ngwynedd ac effaith hyn ar wead cymdeithas. Yn groes i'r ddau gynhyrchiad blaenorol gan Theatr Bara Caws - 'Bargen' a 'Hwyliau'n Codi' - bwriedir ymdrin â phroblemau amserol yn 'Oes 'ma Bobol' ac ymhelaethu ar agweddau sefyllfa gyfoes. Bu tri phrif faes ymchwil, sef yr anawsterau a wynebir gan y di-gartref, cyflwr tai yn gyffredinol yng Ngwynedd, a phroblemau tai haf. Bydd y tair agwedd hon yn cael eu hadlewyrchu mewn tair gwahanol sefyllfa o fewn ein cyflwyniad. Dilyniir hynt tri phrif gymeriad - sef Ann Owen, ei gŵr Gareth a'i frawd Owen (Wow fel y'i gelwir gan bawb). Rhoddir sylw i

bob un o'r tri yn eu tro yng ngwahanol rannau'r cyflwyniad er mwyn pwysleisio amrywiol agweddau'r broblem. O ran arddull bydd y rhannau hynny sy'n ymdrin â'r teulu yn eithaf naturiol, gan ddatblygu o hiwmor y rhan gyntaf drwy ddwyster yr ail ergydion gwleidyddol yr olaf.

Yn cymryd rhan yn y cynhyrchiad mae Beryl Williams, Mari Gwilym, Sara Harris-Davies, Myrddin Jones, Dyfan Roberts, Bryn Fôn, Tim Baker a Catrin Edwards gydag Owen Garmon yn cyfarwyddo, ac fe fydd cyfle ichwi weld perfformiad yng Ngwynedd yn ystod y chwech wythnos sy'n dechrau nos Lun, Chwefror laf.

LLANRUG

Y GOBEITHLU – Cynhaliwyd tri chyfarfod. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Bryn a Lola Thomas, Llys Eiddon, Ceryl Mair Roberts, Elan Wen, Wendy P. Jones, Gwydryn, Lowri Angharad Roberts, Bedw Gwynion, a Bethan Lloyd Roberts, Meifod. Dangoswyd ffilmiau Nadolig gan Mrs Nancy Roberts, a chymerwyd rhan mewn canu ac adrodd gan nifer fawr o'r plant. Cynorthwywyd fel arfer gan Mr John Williams, Gwledfa. Y cyfeiliydd oedd Nia Wyn Jones, Y Wern.

CYMDEITHAS LENYDDOL, Capel Mawr – Cafwyd noson ddiffr yng nghwmni Mr J. H. Hughes, Prifathro Ysgol Dolbadarn yn adrodd straeon. Llywyddwyd gan y Parch W.O. Roberts. Diolchwyd i Mr Hughes gan Mrs Nancy Roberts a Mrs Eileen Jones, Awel yr Hesg. Y gwestwragedd oedd Mrs Jane Williams, Bryn Eifion, Mrs Dorothy Jones, Tegerin, a Mrs Emrys Owen, 9 Hafan Elan. Cynhaliwyd noson o 'Hawl i Holi'. Mr Derfel Gruffydd oedd yr holwr a'r panel oedd Mrs N. Lovatt, Brwynog, Mr R. Williams, Llain Gwta, Mr Leslie Jones, Penisarwaun a Mr Iorwerth Williams, B.A., Caernarfon. Y gwestwragedd oedd Mrs D. Jones, Y Fedwen, Miss M. Evans, Y Fedwen, Mrs N. Jones, Madryn a Mrs Myfi Roberts. Diolchwyd gan y Parch W.O. Roberts ac eiliwyd gan Mr G. Owen, Glasgoed. Y llywydd oedd Mr John Wyn Owen.

PARTI NADOLIG – Daeth dros 90 o blant i fwynhau parti Nadolig Ysgol Sul, Capel Mawr, a chawsant anrheg gan Sion Corn. Dangoswyd ffilmiau gan Mr Gwyndaf Jones, Glanffynnon. Trefnwyd y parti gan Mrs Eryl Roberts, Tyddyn Alice, Mrs Linda Jones, Pant Mwyn, ynghyd ag athrawon yr Ysgol Sul a'r mamau. Cynorthwywyd hefyd gan Mr John Williams. Mrs Joan Griffith, Pant Tiron, trysorydd y Gobeithlu oedd yn gyfrifol am yr anrhegion. Diolch o galon i bawb.

CYMDEITHAS CHWIORYDD, Capel Mawr. Bu'r Ffair Nadolig yn llwyddiannus iawn. Diolchodd Mrs N. Roberts, Annedd Wen yn gynnes iawn i'r holl ardalywyr am eu cefnogaeth, i'r swyddogion Mrs Beryl Thomas a Mrs Dorothy Jones ac i bawb arall a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd.

BEDYDD – Yn y Capel Mawr ar Ragfyr 6 bedyddiwyd Lisa Ellen, merch fach Mr a Mrs Leon Schudlak, Trem Elidir gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts.

GENI – Ar Hydref 26 1981 ganwyd efeilliaid, mab a merch, Emyr Thomas Roberts ac Einir Wyn Roberts, i Mr a Mrs E. Roberts, Elan Wen.



Llun Emyr ac Einir Wyn.

CYDYMDEIMLO – Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Meirwen Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn ar farwolaeth ei thad.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Ifor Humphreys, Llys Gwynedd ar enedigaeth merch, Hanna Wyn.

Y SEINDORF – Cafwyd cinio blynyddol y Seindorf yn Bron Eryri, Llanberis Rhagfyr 12. Ar y dydd lau canlynol aethant o gwmpas y pentref i ganu carolau. Treuliwyd dydd

Sadwrn y 19eg o Ragfyr yng Nghaernarfon yn canu carolau.

Nos Lun Rhagfyr 22 roedd yr aelodau hynaf yng Nghlwb Golff Caernarfon yn cymryd rhan mewn noson gymdeithasol.

Mae'r Seindorf yn ymarfer yn awr ar gyfer cystadleuaeth y Belle Vue, Chwefror 14. Cymerir enwau unrhyw un a fydd yn dymuno mynd i Belle Vue gyda'r Seindorf gan yr ysgrifennydd Raymond Jones.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd y gwasanaeth carolau yng Nghapel Hermon ddydd lau Rhagfyr 10. Cymerwyd y rhan agoriadol gan y Parchn. W.O. Roberts ac E.W. Blainey. Yr organydd oedd y Parch D.G. Williams. Darparwyd te yn y Sefydliad Coffa gan y Pwyllgor a chyfeillion. Enillwyd y raffl gan Mrs M. Williams, Gwledfa. Diolchwyd gan y Parch D.G. Williams a Mr Ifor Williams, Gwelfryn.

Mwynhaodd aelodau Clwb Blodau'r Grug eu cinio blynyddol gyda rhaglen ysgafn yn y Foelas.

Bydd y cyfarfod nesaf Mawrth 11.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth Ionawr 12, gyda Miss Phyllis Ellis yn y gadair. Gwnaed elw o £190 o'r noson goffi, tuag at prawf cancer, a darllenwyd llythyr o ddiolch. Bydd y cinio, a ohirwyd y Nadolig, yn ginio Gŵyl Ddewi yng ngwesty Gwynedd, Mawrth 9, a cheir dawnsio gwerin yno dan arweiniad Miss Alice Eileen Williams.

Noson o 'Bawb at y peth y bo' oedd hi, a chafwyd sgwrs gan bedair o aelodau am eu diddordebau.

Dangosodd Miss Phyllis Ellis ffilmiau o ddinasoedd yr Eidal a roddodd fwyaf o fwynhad iddi pan ar wyliau.

Soniodd Mrs Margaret Parry am 'Hwyllo', Mrs Ann Llwyd am ei gwaith fel golygydd 'Pais' a Mrs Beth Ann Williams am 'Wneud Gwin'.

Diolchwyd gan Mrs Nancy Lovatt. Gwnaed y te gan Mrs Enid W. Thomas, Mrs Amy Smith, Mrs M. Jones, Bron Wylfa, Mrs D. Williams, Talybont, Mrs J.C. Williams, Bod Fair a Mrs G.M. Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 9 pryd y disgwylir Mrs Ruth Davies i roi arddangosiad 'Coginio'.

GWASANAETH PLYGAIN – Bore'r Nadolig yng nghapel Pontrhythallt cafwyd gwasanaeth Plygain am 7 o'r gloch fel arfer, a daeth nifer dda iawn ynghyd a chafwyd bendith. Llywyddwyd a threfnwyd y rhaglen gan y Parch W.O. Roberts, a rhoddodd groeso cynnes i'r Parch E. Blainey atom am y tro cyntaf a dymunwyd yn dda iddo yn ôl i'r cylch. Cymerwyd rhan gan Gwenan Roberts, Rhiannon James, Bethan Parry, Dafydd Owen, Einir Parry, Gwenno Parry, Doris Adlam, Megan Roberts, Beryl Thomas, Y Parch E. Blainey, Gwyn Roberts, Nancy Lovatt, M. Lloyd Williams, Megan Humphreys, Katie Roberts, Mair Humphreys, y Parch Gwynfor Roberts. Cyfeiliwyd gan Mrs M. Roberts a Mr G. Roberts, Gregynog. Yr oedd y canu yng ngofal medrus Mr Arwel Jones, Gwen-y-Wawr. Gwnaed casgliad teilwng iawn at waith ysgol Pendalar.

AELODAU NEWYDD – Cafwyd oedfa arbennig iawn yn y Capel Mawr nos Sul Rhagfyr 6 pryd y derbyniwyd deuddeg o bobl ieuainc yn gyflawn aelodau o'r eglwys gan eu gweinidog y Parch W.O. Roberts, sef Sian Wyn Jones, Susan Morris, Delyth Wyn Jones, Anwen Davies, Linda Wyn Jones, Karen Lewis, Sharon Lewis, Dawn Augusta Roberts, Eilir Llewelyn Jones, Glyn Cadwalader, Nigel Wyn Griffith ac Aled Jones.

Daeth cynulliad da ynghyd a chafwyd oedfa fendithiol. Ar ôl annerch y bobl ieuanc yn arbennig, arweiniodd y Gweinidog hwy at Fwrdd y Cymun i dderbyn eu Cymun cyntaf.

GWYLNOS CAPEL MAWR – Ar Ragfyr 31 am 9 o'r gloch cafwyd Gwynnos fel arfer. Cafwyd gwledd flasus wedi ei threfnu gan chwarydd y Gymdeithas Lenyddol. Yna treuliwyd amser difyr iawn gydag adloniant dan arweiniad Mrs M. Jones, Ogwen a Mrs J. Davies, Plas Gwyn. Croesawyd y flwyddyn newydd gyda gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog y Parch W.O. Roberts, Annedd Wen.

CYFARFOD GWEDDI POBL IFANC – Nos Lun am saith o'r gloch yn y Capel Mawr cafwyd cyfarfod gweddi dan arweiniad y bobl ifanc. Cymerwyd rhan gan Lola O. Jones, Richard Ellis Owen, Gwen O. Jones, Gwyneth Jones, Sian Wyn Jones, Elidir Owen, Beryl Wyn Griffith, Helena Parry. Trefnwyd y cyfarfod gan y Parch W.O. Roberts, cyfeiliwyd gan Mrs Jones, Ogwen.

HAFAN ELAN – Nos lau, Rhagfyr 17 aeth trigolion y stad am yr ail flwyddyn yn olynol i ddathlu eu cinio Nadolig i Westy'r Foelas Llanrug.

Croesawyd pawb yn gynnes gan Mrs D. Jones (Y Warden) a dywedwyd y gras bwyd gan Mr A. Jones, rhif 18.

Ar ôl gwledd ardderchog cyflwynwyd y gŵr gwadd sef Mr Raymond Jones, Llanrug gan Miss M.I. Rowlands, Cilmeri, diddanwyd hwy ganddo trwy ei ganu hyfryd gyda'r gitâr. Ymunodd amryw o'r trigolion yn y canu a'r diwedd fu i rai fynd ar y llawr i ddawnsio. Cafwyd unawd gan Mr C. Williams, rhif 19 a storïau gan Mrs N. Williams, Moelwyn a Mrs G. Jones, rhif 7.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs N. Rowlands, Cilmeri ac enillwyd hi gan Mrs E. Orritt, rhif 10.

Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mr G. Orritt, rhif 10 a diolchwyd hefyd i'r ysgrifennydd am drefnu'r noson, gan Mrs Dilys Jones.

Dymunwn fel stad ddiolch o galon i Mrs D. Jones (Y Warden) am ei charedigrwydd yn rhoi a pharatoi te Nadolig i ni yn y ganolfan brynawn Llun Rhagfyr 21.

Manteisiwn ar y cyfle hwn i ddatgan ein diolch iddi hefyd am ei gofal amdanom trwy gydol y flwyddyn 1981.

DIOLCH – Diolch i'r wraig garedig o Gwm-y-glo am ei rhodd o gadair i ni i'w defnyddio yn y ganolfan.

CYDYMDEIMLWN â Mrs M. Pritchard, Caryl a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli gŵr annwyl a thad hoff sef y diweddar Mr T. Pritchard (Twm Bach D.M.).

BINGO – Cynhaliwyd Bingo Fawr y Nadolig yn y Ganolfan nos Fawrth Rhagfyr 22, diolch i'r ardalywyr am eu

haelioni yn rhoddi gwobrau i ni fel nad aeth fawr o neb adref yn waglaw.

DIOLCH – Dymuna Mr Harri a Dr Eirwen Gwynn, Tyddyn Rhuddallt, Mr a Mrs R.D. Williams, Y Berllan a Mr a Mrs W.A. Jones, Y Dalar Deg ddiolch o galon i Mr Meirion Jones, dirprwy brifathro Ysgol Brynrefail am drefnu i 6 o fechgyn o wirfoddolwyr ddod i glirio lluwchfeydd o eira a'u galluogi i fynd i'r lôn fawr yn ystod tywydd mawr a gawsom yn ddiweddar.

GWELLHAD, BUAN – Dymunir gwellhad buan i Mrs S.V. Jones, Craigwen, a Mrs D. Owen, 22 Bro Rhyddallt, sydd mewn ysbysu ym Mangor.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Fawrth, 19, cafwyd gwledd o wrando ar Barti Clychau'r Grug, dan arweiniad Mrs N. Lovatt. Maent i'w llongyfarch yn fawr am eu dewisiad, a safon y canu. Edrychwn ymlaen am glywed mwy amdanynt yn y dyfodol. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs J.L. Williams, Bod Fair, a diolchwyd i'r parti gan Mrs Megan Williams, Tanygaer, a'r Parch Eryl Blainey.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Calendr y Mis. Chwefror 2: Brethyn Cartref. 16: Dadl rhwng yr aelodau. 22: Ymweliad â Chymdeithas y Waunfawr.



Llun trigolion Hafan Elan yn eu swper Nadolig yng Ngwesty'r Foelas.

PRIODAS – Ar Dachwedd 25, yng nghapel yr Annibynwyr, Felindre, ger Abertawe, priododd Dennis, mab Mr a Mrs Evan Williams, 1 Bryn Gro, gydag Ann Thomas, merch Mr a Mrs Dewi Thomas, Gelli Beddau, Felindre. Maent wedi ymgartrefu yng Nghwmlla ger Castell Nedd.

Ffug-Eisteddfod yr Eco – Gobeithio bod pawb yn y pentref yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod – sef uchafbwynt y gaeaf ym mro'r Eco.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG – Mae tair sedd wag yn bodoli ar Gyngor Cymuned Llanrug, sef Ward Ceunant, Llanrug a Chaeathro. Dylai unrhyw un sydd yn awyddus i gynrychioli'r ardaloedd hyn ysgrifennu yn gyntaf at Glerc y Cyngor, 60 Glanffynnon, Llanrug. Pe bydd mwy na dau ymgeisydd ym mhob ward fe drefnir etholiad i lanw'r swydd.

GWYDRO DWBL? ARFON WINDOW FITTERS Ltd.

56a FFRDD PENCHWINTAN, BANGOR
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

STORIAU'R CYFAR MAIN Y GWALCH

Byddai fy nhad yn cadw dwy hwch focha, a rheiny yn dorrog bob yn ail. 'Roedd hynny yn golygu fod yna dorllwyth newydd bob rhyw hanner blwyddyn, o ddwsin i bedwar ar ddeg o foch bach, ac yr oeddau nhw yn cael eu gwerthu i'r tyddynnod yn chwech wythnos oed, fel moch pesgi, am rhyw ddeg swllt ar hugain y pen, ac 'roedd mynd arny'n nhw 'run fath â bara Cwm; a hynny mewn cyfnod pan oedd pobol yn gorfod dibynnu ar eu llafur eu huanin am gynhaliath, ac nid ar y llywodraeth.

Ond wrth gwrs, 'roedd yn rhaid mynd â'r hychod at y baedd, ac yr oedd hwnnw yn trigo yng Nghefn Gwyn, ger y Boncan Sipsiwn yn y Felinheli, a fi ran amla' fydda'n cael y swydd o'u danfon nhw. Ond mi welais rai yn mynd eu hunain, ac hyd yn oed yn neidio o'r ffolt pan fyddai'r ysfa yn gafael ynddyn nhw. Mi fyddan yn mynd gyda thin y clawdd ar filldith, gan gipio topyn o wellt yma ac acw, ac mi aeth un i gae Yr Ynys a dechra ei 'redig o.

Ond yr hen hwch honno gymerodd yn ei phen i deithio yn y nos a achosodd fwy o firi. Mi ddaeth i wynab pobol yn dwad o'r seiat yn y Glasgoed, ac yn eu plith nhw, y ddwy Fiss Jones, Arthur Teras. Roeddau nhw wedi cymryd wib am Brys Dyrys, a gadael eu hetia ar y lôn, ac mi aethon bob cam ar hyd llwybr Cae Dicwm, a rownd y bloc, gan feddwl fod yna grocodeil wedi torri allan o ddyfnderoedd cors yr Hendra. Ond dydw i ddim yn credu i neb gael allan hwch pwy oedd hi hyd y dydd heddiw.

Pan fyddwn i yn mynd â nhw, mi fydda fy nhad yn rhwymu pwt o rensan am eu hegwd nhw, a finna yn chwipio'r pen arall am fy llaw, ac 'roedd eu gollwng nhw o'r ffolt fel agor i filgwn ar gae ras. 'Doedd yna ddim trugaredd wedyn, ond dal i fynd ar eu hola nhw fel tun wrth gynffon ci.

'Doedd yna ddim gobaith eu hatal nhw unwaith yr oeddau nhw wedi cymryd yn eu penna, achos yr adag honno, 'roeddau nhw yn pwyso ddwy waith gymaint â fi. Unig bwrpas y tennyn oedd rhoi dipyn o frac arny'n nhw am funud, er mwyn cael rhedag o'u blaenau nhw i droi eu trwynau nhw y ffordd iawn, a hyd yn oed wedyn, 'doedd yna ddim garanti y medrwn i wneud hynny chwaith unwaith yr oeddau nhw wedi cael eu penna rhwng fy nghoesa i. Dyna pam na ddylai jocis gadw moch.

Y ddau fwgan mwya oedd gen i ar y ffordd i Gefn Gwyn, oedd mynwant Llaniolan, a lein y chwarael ym Mryn Pistyll, lle y gallai yr hwch gymryd wib i wynab y trê, a chael ei sglesio yn fecyn cyn mynd i Denmarc.

'Rwy'n cofio mynd â 'spinhwch unwaith ar ddiwrnod poeth, a honno yn mynnu rhoi ei thrwyn ymhob man ond ble 'roedd isio iddi ei roi o. Mi tynnodd fi i Bant Tan Dinas, a dyma hi yn gollwng ei hun yn glewt i'r dŵr, a 'doedd yna ddim

symud arni hi am sbel, ond pan aeth hi - mi aeth, ac 'roeddau ni wrth bwmp Llan Isa mewn dau funud.

'Roeddwn inna erbyn hyn awydd llymad o ddŵr, a dyma fi yn ceisio chwipio'r rensan am goes y pwmp i'w hatal hi am funud, er mwyn i mi gael cyfla i roi fy ngheg wrth ei wefl o. Ond wrth i mi drio pwmpio'r fraich, mi aeth y rensan o fy llaw i, a ffwrdd â'r hwch ar duth i fynyr allt am yr eglwys.

Pan gyrhaeddais i giat y fynwant, beth oedd yn y fan honno ond rhes o gerbyda' cynhebrwng, ac mi roeddau nhw yn ormod o fwgan i'r hwch. I mewn â hi fel tasa hi â'i bryd ar fynd i'r eglwys, ond troi wnaeth hi, yn ymyl yr ywan, ac erbyn i mi gyrhaedd y fan honno, dyma fi yn darganfod y basa yn well ddeng mil a chant pe tasa hi wedi dal i fynd yn ei blaen, achos, yr oedd y bobol erbyn hyn wrth lan y bedd, a Morgan Jones y person yn darllan uwch ei ben o, a'r hwch yn mynd amdany'n nhw yn selog, fel pe tasa hi wedi cael gwadd yno fel un o'r teulu. A wyddwn i ddim ar y cread beth i'w wneud.

Dyma hi yn dechra swlffa o gwmpas sodla'r bobl, ac yr oedd bryd y rhan fwy ohonyn nhw erbyn hyn yn fwy arni hi na'r gwasanaeth claddu, ac 'roedd hitha wedi sobri, welsoch chi 'rioed y fath beth.

Mi gafodd yna ddyn afael ar ei thennyn hi yn y diwadd, ond edifeirwch oedd yn ei aros o. Dyma hi yn cymryd pwcs heibio congl rhyw gist, a'i dynnu o ar ei wynab arni hi, a gollwng fu raid iddo fo. A ffwrdd â hi fel peth wirion am y wal bella, ac ar ôl i mi fagu digon o nyrf i fynd ar ei hól hi, dyna lle 'roedd hi yn byta bloda oedd rhywun wedi eu gadael mewn pot jam.

Wedi i mi ei dilyn hi ddwywaith neu dair o un pen i'r wal i'r llall 'roedd y galarwyr wrth lwc, wedi cael cyfla i wasgaru, achos, pan gefais i ail afael ar y rensan yn y diwadd, dyma ni yn cychwyn wib arall am yr eglwys ar draws y beddi a rownd y cistia, ond yn ffodus, 'roedd yna ddau ddyn ar y llwybr efo hetia cledion, a dyma nhw yn tynnu am eu penna wedyn, a chwifio'r hetia a'i sochian hi am y giat, neu rhedag rownd y fynwant y baswn i wedi bod am wythnosa.

Ar hynny pwy ddaeth allan o'r eglwys ond John Williams y

clochydd, a dyma fo yn cychwyn darlith ar hogia bach na ddylan nhw ar yr un cyfriegael eu gollwng i yrru hychod ar y lôn Bost, ond 'doedd gan yr hwch fawr o awydd aros i wrando. I ffwrdd â ni fel helfa geirw am Gors Bach, a'r cwblw fedrwn i wneud oedd dal i redag a thalu diolch ar yr un pryd fod ei thrwyn hi yn cyfeirio i'r lle iawn beth bynnag.

Ac i lawr Lôn Parcia Rhos â ni, ac fel arfar, 'roedd yr hen fachgan hwnnw a oedd yn y cwt yn edrach ar ôl giatia'r crosin wedi ein gweld ni yn dwad, achos dyna'r cwblw oedd ganddo fo i wneud rhwng trêns a chyfrif y pryd ar y ffenast. Mi fydda yn pwyso ar y rhagddor, a thaflu cwestiyna ar fy ôl i, a finna yn trio atab tros fy sgwydda, gan gael fy mhlycian yn bellach o'i swm o, a tasa yr hwch wedi cymryd yn ei phen i nofio Moel y Don, y fi mae'n debyg fasa'r sgîwr dŵr cynta i groesi o'r tir mawr i Sir Fôn.

"Ydi hi'n gofyn baedd?" fydda fo'n ddeud, a "sut mae dy fam?" Byth yn sôn am fy nhad. "Ydach chi wedi dechra ar y gwair?" neu'r yd, neu godi tatws, pa dymor bynnag fydda hi yn digwydd bod.

Griffith Jones oedd yn ffarmio yng Nghefn Gwyn yr adag honno. 'Roedd o wedi bod ar y môr, ac yn un siort gynta am ddatod cyllyma, a llawn cystal hynny, achos erbyn hyn, 'roedd y cwlwm am egwd yr hwch wedi tynhau fel pe tasa fo wedi cael ei weldio yno, ac 'roedd fy llaw inna wedi rhyw hanner gwywo, 'run fath â llaw y dyn hwnnw yn y Beibl, ac yn wrymia a chrepach i gyd.

Mi fyddwn i yn gadael yr hwch yno weithia, am ddeuddydd neu dri a mynd adra fy hun, a thrio bod yn finfain ar y crosin, ond 'doedd dim dichon osgoi yr hen fachgan. Mi fydda yn fy hudo i i'r cwt i gael fy stilio i, am ei fod o yn

unig. "Gymodd hi faedd?" fydda fo'n ddeud, gan sodro'r hen deciall hwnnw ar ei dewin tân. "Mi gymi panad?"

Ond 'doedd ganddo fo ddim o'r llestri ar gyfar pobol ddiarth dim ond un fyg fawr enamyl, a oedd unwaith wedi cychwyn mor las a'r awyr - oddi mewn ac allan felly - ymhell cyn i ddyn y 'Fairy Liquid' fwrw ei brentisiad. Ac er fy mod i yn dyheu am ail gyrhaedd pwmp y Llan, 'roedd un gip ar honno yn dileu fy sychad i fel eira Mawrth.

Ond mi fydda ganddo fo straeon am foch ddigon a chodi gwallt pen, a gwneud i rhywun feddwl ddwywaith am fynd o fewn canllath i fochyn byth wedyn.


'Roedd yna rhyw forwyn fach, medda fo, yn Sir Fôn, yn bwydo'r moch rhyw ddiwrnod, ac yn eu plith nhw 'roedd yna rhyw hen hwch fawr, filan. Pan oedd yr hogan yn gwyro tros y crwc i dywallt y bwyd, dyma'r hen hwch yma yn cymeryd haffiad o'i braich hi, a'i thorri hi yn glir i ffwrdd. "A'r cwbl fedra y greaduras bach neud," medda fo, "oedd sefyll yn y fan honno a'r bwcad yn y llaw arall, yn edrach ar yr hen hwch honno yn sglaffian ei braich hi."

Ond fyddwn i byth yn crybwyll adra fy mod i wedi bod am stelc yn y cwt, achos mi faswn yn ei chael hi am beidio dwad ar fy union i ddeud fod yr hwch wedi cyrraedd yn saff.

Sut tybad y basa hi arna i heddiw taswn i yn ei chynnig hi tros y Caera Mawr efo hwch ar dennyn? Mi fasa yn ofynnol i mi gael moto plisman o fy mlaen ac un arall y tu ôl, a gola rheiny yn fflachio yn reit gry hefyd, neu'r peryg ydy y baswn i a'r hwch, cyn cyrraedd mynwant Llaniolan, yn barod i fynd yno yn barhaol, ac mi fasa'r clochydd yn cael cloi'r giat arna ni yn ddigon tynn.

LLWYDDIANT HOGIAU'R CODI PWYSAU YNG NGHAERDYDD

Yn ystod mis Rhagfyr cynhaliwyd cystadleuaeth codi pwysau bechgyn ieuencid ac ysgolion Cymru yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol, Caerdydd. Cafodd Clwb Codi Pwysau Llanrug lwyddiant mawr eto eleni pan lwyddodd Eurn Williams o Ddeiniolen yn y dosbarth 56kg. Llwyddodd Tony Owen o Gaernarfon yn y dosbarth 60kg a daeth Colin Owen, hefyd o Gaernarfon, yn ail yn y dosbarth 75kg. Yn ystod y mis cafodd Tony ac Eurn anrhydedd fwyaf eu bywyd hyd yn hyn wrth gystadlu ym mhencampwriaeth y 'Silver Dragon'



Eurn Williams, Deiniolen, yn cystadlu yn y dosbarth 56kg.



Gwynfryn Williams, Penisa'rwaun yn cystadlu yn y dosbarth 44kg.

LLANBERIS

GWASANAETHAU'R NADOLIG – Bu darparu yn yr holl eglwysi lleol tuag at ddathlu'r Nadolig. Yn Eglwys Jerusalem bu'r plant dan arweiniad y gweinidog, y Parch H. John Hughes, Mrs Grace Roberts a Mrs Meirwen Baylis yn perfformio Gŵyl y Geni (Simon, Sonia, Stephen, Heddwen ac Arnold, Nicola, Julie, Jason, Justin, Darren, Ian a Waine).

Yn Nant Padarn, trefnwyd gwasanaeth gwreiddiol iawn gan Mr Aled Owen – yn yr hen ddull traddodiadol gyda charolau a darlleniadau, gyda Carys, Bethan, Trystan ac Euron yn cymryd rhan. Gwrandawyd ar gerddoriaeth glasurol a roddai ryw naw ddymunol i'r cyfarfod. Yn Eglwys Sant Padarn, siomiant a gafwyd gyda'r cyfarfod a drefnwyd gan y Parch Marcus Robinson a rhieni plant y gobeithlu yng Nghapel Coch.

GWAELEDD – Mae'r amser yma o'r flwyddyn yn tynnu ein sylw at amryw o'r trigolion sydd yn wael – rhai yn eu cartrefi ac eraill yn yr ysbyty. Dylai fod yn gysur iddynt wybod pa le bynnag y bônt fod ein meddyliau gyda hwynt ac y dymunir iddynt adferiad llwyr yn fuan iawn. Erbyn heddiw hwyrach fod rhai ohonynt yn barod wedi dychwelyd gartref at eu teuluoedd – a diolch am hynny yntê. Cyfeiriwn at Mrs Phyllis Roberts, Stryd Turner; Mrs Owen, Castle View; Mrs Nel Roberts, Hazelgrove, Mrs Jean Roberts, Maes Padarn; Mrs Yvonne Maxwell Hughes, Stryd yr Afon; Mrs Louie Roberts, Tŷ Newydd, Clegir; Mr Evie Roberts, Teras Minafon; Mr Hughes, Ffordd Padarn; Mr Glyn Penry Williams, Maes Padarn; Mr Boyle, Stryd Ceunant; Mrs Edith Jones, Maes Padarn; Mr Ted Thomas, Ffordd Tŷ Du; Mrs Betty Williams, Coed y Glyn; Mr Hywel Morris, Pen-y-Bont.

DAMWAIN YN YR EIRA – Yn ystod yr eira trwm a gawsom syrthiodd Morfudd, priod Mr Ieuan Jones, Erw'r Coed a thorri ei braich. Hefyd cafodd Mrs Nora Parry, 9 Maes Padarn ddamwain. Wedi torri ei fraich mae Iwan, mab bychan Mr a Mrs Harding, Min-y-Coed. Dymunir iddynt oll adferiad buan.

CRONFA'R IAU – Bu Mrs Williams, Baladeulyn, yn ddiwyd iawn cyn y gwyliau yn casglu arian yma ac acw at Gronfa'r Iau. Casglwyd £53 – ac mae'r pwyllgor lleol yn ddiolchgar iawn iddi.

ANNIE REES DAVIES – Ar ddiwedd mis Rhagfyr colodd yr ardal foneddiges, – ie – boneddiges yng ngwir ystyr y gair. Gwraig ddymunol, garedig, gymwynasgar, un a wasanaethai i eraill tra gallai yn dawel a di-stŵr.

Yn ddi-rybudd bu farw Annie Rees

Davies, yn 86 oed yn ei chartref Gwenfro, Stryd Goodman. Hi ydoedd yr olaf o ddeuddeg o blant i'r diweddar Robert Jones a'i briod, 'Rallt Goch, Ceunant. Nyrsio y bu hi am flynyddoedd cyn iddi briodi a dod i fyw i Gwenfro, lle bu hi a'i phriod, y diweddar Griffith John Davies yn cadw siop groffwr. Cysylltodd ei hun â phob mudiad da – ac yroedd yr achos yng Nghapel Coch yn cael y lle blaenaf yn ei chysylltiadau lleol. Cynrychiolai Eglwys Capel Coch ar Bwyllgor y Nyrs cyn bod y clinic presennol. Yn ystod y rhyfel diwethaf bu'n aelod bywiog a gweithgar o'r YMCA yng Nglandŵr, lle y bu'n garedig wrth gannoedd o'r milwyr fu'n aros yn yr ardal dros y rhyfel. Ymunodd â'r WVS ac yna gyda rhyw ychydig o gyfeillion sefydlodd 'Glwb yr Henoed' lle y bu'n gwasanaethu tra y gallai yn ddiwyd iawn. Yn wir, 'rydym wedi colli cymdoges dda – ac mae cymdogion da y gallwch ddibynnu arnynt yn brin iawn, iawn heddiw.

Estynnir y cydymdeimlad llwyrach tuag at ei hunig ferch, Gwyneth a'i theulu i gyd. Bu'r angladd (preifat) yn Nant Peris gyda'r gweinidog, y Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu.

DWY NAIN LWCUS – Yn ystod y gwyliau cafodd Mrs Eluned Mai Jones, Rhes-y-Cae newyddion da am eni bachgen bach i Gareth a'i briod yn ardal Clwyd. Brawd bach newydd i Aled a'i enw yw Gwyn.

Hefyd, ar ddechrau'r flwyddyn cafodd Mrs Mair Lloyd Roberts, Stryd Warden wybod ei bod hithau yn nain am yr eilwaith. Ganwyd geneth fach i Helen ei merch yn Lerpwl. Wrth gwrs, mae nain wedi gwirioni gydag Elin, y babi newydd.

CROESO GARTRE i chi Emyr, mab Mrs Anny Jones a'r diweddar Owie Jones, Stryd Turner ar eich gwyliau o Saudi Arabia. Tipyn o wahaniaeth yn y tywydd – symud o haul tanbaid i eira a rhew. Eto i gyd croeso mawr oedd yn eich disgwyl ym Mrynrefail a Llanberis.

Hefyd, estynnir yr un croeso i Jean, merch Mrs Janet Davies a'r diweddar W. Davies, Stryd-y-Dŵr ar ei gwyliau o Quebec, Canada.

CYFARFODYDD DECHRAU'R FLWYDDYN – Yn ôl yr hen arfer cynhelir gwasanaethau arbennig ar ddechrau'r flwyddyn ymhob eglwys. Yn Nant Padarn bu Cyfarfod gweddi nos Fawrth, yn Nant Padarn nos Fercher bu cyfarfod gweddi undebol dan arweiniad y Parch Marcus Robinson a nos Iau yng Nghapel Jerusalem cafwyd pregeth gan y Parch Hugh John Hughes. Wrth gwrs bu cyfarfodydd gweddi yng Ngorffwysfa, Preswylfa a Nant Padarn.

ENNILL CWPAN – Llongyfarchiadau i Eric Baylis ar ennill Cwpan Goffa Trevor Wyn Williams am chwarae snwcer. Bu 64 o chwaraewyr yn cystadlu am y gwpan hardd a gyflwynwyd i Eric gan Mrs Betty Williams, gweddwr Cyngorydd Trevor Williams. Diolchgar iawn yw'r pwyllgor trefnu'r gystadleuaeth i Swyddog y Frigad Ddan leol, Mr Eric Edwards, am ganiatau i'r gystadleuaeth gymryd lle yn ystod y tymor yn ystafell adloniant y Frigad Ddan. Da iawn yw deall fod mwy o lawer o ddiddordeb yn y gêm yma yn awr, nag a fu ers blynyddoedd. 'Roedd Llanberis yn ganolfan filiards a snwcer ers talwm. Faint ohonoch sy'n cofio y 'Clwb 13' yn y cwt bach pren ar bwys y Pictiwr? Y cwt bach clyd a'r criwys diddori eu hunain hyd oriau mân y bore? – Syd Wakeham, Eric Wakeham, Robert John Williams, Gwilym Jones (Elidir View), Emyr Roberts, Brynner, a John Moxen (yr unig un sy'n fyw erbyn hyn rwy'n tybio).



Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Yr ail nos Lun o'r mis cyfarfu aelodau y Gymdeithas Lenyddol dan lywyddiaeth Hugh R. Jones. Trefnwyd cyfarfod gweddi gyda'r aelodau canlynol yn cymryd rhan: Mrs Iola Sellers, Mrs Norman Hughes, Mrs Gwynfor Williams, Mrs Dilys Baylis, Mrs Grace Roberts.

GADAEI YR ARDAL – Deallwn fod Mrs Tom Roberts, Maes Padarn wedi gadael yr ardal i aros yng Nghartref y Deillion yn Abergele. 'Roedd ei golwg yn gwaethygu ers peth amser. 'Rydych yn gadael gyda dymuniadau da'r ardalwyr.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Nos Iau, Rhagfyr 3 cawsom Ginio Nadolig ardderchog yng Ngwesty Gwynedd, a diolch yn fawr i Mrs Glenys Jones am drefnu'r noson aci'r pwyllgor am roddi'r gwobrau. Yr oedd croeso Mr a Mrs Meirion Evans yn gynnes iawn, a diolch i Mr Evans am ein cynorthwyo ni gyda'r adloniant. Yn anffodus bu'n rhaid gohirio ein cyfarfod mis Rhagfyr oherwydd y tywydd.

Y TÎM DAN 16 OED – Dyma lun o'r bechgyn bach dan 16 oed sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yng ngemau pêl-droed Gwyrfa'i eleni. Maent ar ben y rhestr yng Nghynghrair Gwyrfa'i a disgwylir llwyddiant iddynt ymhellach yng nghystadleuaeth Cwpan Ferodo.

Mawr yw gwerthfawrogiad yr ardalwyr o'r cyfeillion hynny sydd wedi ymddiddori yn y bechgyn ifanc yma ers blynyddoedd lawer. Cyfeiriwn at Thomas John Roberts, Maes Padarn – Brian Wakeham, Stryd Newton a Melfyn Pritchard, Nant Peris sydd yn hyfforddi y bechgyn ddwy waith bob wythnos. Yn aml iawn bydd tua 30 o fechgyn yn disgwyl wrthynt ar y cae chwarae, glaw neu beidio – yn llawn brwdfrydedd ac yn awyddus iawn am unrhyw hyfforddiant.

Fel y gwelwch yn y llun mae'r bechgyn wedi eu gwisgo â chrysau newydd. Anrheg gan Mr John Davies, Modurdy'r Wyddfa yw'r rhain ac mae'r bechgyn a'u cefnogwyr yn gwerthfawrogi'r haelioni yn fawr iawn. Mr Aneurin Jones, Gwesty Dolbadarn yw llywydd Pwyllgor y tîm bach, ac mae ei ddiddordeb ef yn eu llwyddiant yn fawr iawn, a phob pen-wythnos bydd rhyw drefniant er budd i gronfa'r clwb. Dyledus yw'r pwyllgor hefyd i'r cyfeillion hynny sydd yn cefnogi'r ifanc mewn llawer dull a modd – fel Ken Jones (KMP) a Mr Lal Jones, Warden Street.

Mae digon o sôn am fechgyn o'r oed yma yn methu gwneud dim o werth yn eu horiau hamdden, ond dyma rif go lew yn arfer eu horiau hamdden i bwrpas da – diolch amdanynt a daliwch ati hogia – daw llwyddiant yn y diwedd.



Bistro
45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: PADARN 278
(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

MARWOLAETH – Yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, bu farw Robert John Roberts, 8 Stryd yr Wyddfa yn 75 oed. Bu'n wael ers rhai misoedd. Claddwyd ef ym mynwent Llan Ffestiniog gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'i unig chwaer a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir cydymdeimlad dwysaf â Mrs Mamie Pritchard, Hafod Elan, Llanrug ar golli ei phriod yr wythnos ddiwethaf. Nid oedd llawer o amser ers pan symudodd y ddau i Lanrug – yma yn Llanberis y buont fyw, yn magu mab a merch, a chydymdeimlir â'i chwiorydd a'i frawd yn y brofedigaeth.

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf tuag at Wilfred Wyn Davies a'i deulu, Olgra Terrace (gynt o Ddôl Elidir) ar golli ei frawd yng nghyfraith yn Rhosgadfan.

Cydymdeimlir hefyd â Mrs Rhys Owen, Pant Du, Ffordd Tŷ Du ar golli ei hunig chwaer yng Nghaernarfon. Bu'n wael am gyfnod maith, yn graddol golli ei golwg.

CARTREF NEWYDD – Ar ôl blynyddoedd o fyw yn hapus a chymdogol a chodi teulu o bedwar o blant dymunol iawn mae Meurig a Marie Evans, Ferndale neu 'The Gift Shop' wedi gwerthu'r busnes ac wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon. Ar hyd y blynyddoedd buont yn aelodau ffyddlon iawn yn Nant Padarn a bydd colled fawr ar eu hôl. Cysylltodd y ddau eu hunain â phob achos da yn yr ardal, gan gyfrannu yn helaeth i'r achosion hynny. Maent yn gadael Llanberis gyda dymuniadau gorau yr holl ardalydd, gan obeithio y bydd iddynt flynyddoedd lawer o hapusrwydd yn eu cartref newydd.

NYRSIO – Ar ôl gadael y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail mae Karen Elizabeth Jones, merch Mr a Mrs Kenneth Jones, Maes Padarn, wedi dechrau ar ei chwr fel nyrs yn Ysbyty'r Heath, Caerdydd. Derbyniwyd hi i ymgymryd â chwr SRN. Dymunir i chwi bob lwc yn y gwaith bendigedig yma a gobeithio y bydd eich gyrfa yn llwyddiannus. Ar hyn o bryd mae nifer o bobl ifanc yr ardal yng Nghaerdydd – felly cewch gwmni rhai sydd wedi eu cyd-fagu â chwi yn Llanberis.

YR YSGOL FEITHRIN – Ar Ragfyr 16, cynhaliwyd Parti Nadolig i'r plant, yn y Ganolfan, amser cinio. Ar ôl iddynt fwyta 'roedd y plant wrth eu bodd yn dawnsio nes y cyrhaeddodd Siôn Corn ag anrheg i bob un ohonynt.

Cyflwynodd Mrs Ellis, yr athrawes, ar ran yr Ysgol, gloc llechen i Mrs Prydderch, ar ei hymddeoliad ar ôl tair blynedd fel cynorthwys. Mrs Catherine Ll. Williams sydd wedi cael ei swydd.

Mae dau blentyn newydd wedi dechrau yn yr Ysgol ar ôl y Nadolig yn

gwneud cyfanswm o bymtheg o blant. Mae lle i fwy o blant tros ddwy a hanner mlwydd oed.

UNDEB Y MAMAU – Y gwahoddedigion yng ngwasanaeth cyntaf y flwyddyn o Undeb y Mamau eglwysy Sant Padarn a Sant Peris oedd cyfeillion o Gaernarfon dan arweiniad Mrs Lloyd. Tua'r Nadolig, cafwyd gwasanaeth o Ganu Carolau dan arweiniad y Canon Alun Jones a Mr Huxley Thomas wrth yr organ. Diolchwyd i'r aelodau hynny a fu'n trefnu lluniaeth, sef Mrs Norman Jones, Mrs Betty Humphreys, Mrs Nellie Roberts, Mrs W.H. Parry, Mrs Dorothy Williams a Miss Catherine Gillespie gan Mrs Eric Owen.

YSGOL DOLBADARN

Nofio: Ychydig ddyddiau cyn gwyliau'r Nadolig llwyddodd tri o blant yr ysgol i ennill Medal Bres mewn nofio ym Mhwl Nofio Bangor. Llonyfarchiadau calonnog i'r tri, sef Nia Gwyn Griffiths, Dylan Ellis Thomas, a Jason Roberts.

Erbyn hyn mae Canolfan Hamdden Caernarfon wedi agor ac mae'r plant wedi cychwyn yn barod ar fynychu'r pwl nofio yno am wersi. Mawr hydera y prifathro y daw llwyddiant ychwanegol i'r Ysgol yn y dyfodol agos.

Casgliad i Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru: Ym mis Rhagfyr casglwyd y swm o £50 yn yr Ysgol tuag at y gymdeithas uchod. Manteisia y prifathro ar y cyfle hwn i ddiolch i'r rhieni ac eraill am y gefnogaeth frwd a gaed tros yr achos teilwng hwn.

Partïon Nadolig: Cyn i'r Ysgol gau am Wyliau Nadolig cafwyd dau barti yn yr ysgol. Yn ystod un y babanod ymwelodd Santa Clos gan gyflwyno oren i'r plant bach. Yn dilyn parti yr Adran lau cafwyd disgo a chwaraeon yn y Neuadd. Mawr yw diolchgarwch y prifathro i'r Athrawon a Staff y Gegin am ddarparu cystal gwleddoedd i'r plant.

Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau: Bu'n rhaid gohirio'r Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau oedd i'w gynnal ar y Sul, Rhagfyr 13, yn Eglwys Sant Padarn, oherwydd y tywydd garw.

Ond fe'i cynhaliwyd nos lau, Ionawr 14. Fel arfer, gwnaeth y plant eu gwaith yn effeithiol iawn drwy ganu, adrodd a darllen. Er bod yr hin yn oer daeth nifer dda i wrando ar y plant. Yn ystod y gwasanaeth gwnaed casgliad i Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, pryd y casglwyd y swm o £25. Dymuna'r Prifathro ddiolch i bawb am gefnogi'r Ysgol ac yn arbennig i'r Parch Canon Alun Jones am gael defnyddio'r Eglwys. Hefyd i Mr H. Peris Pritchard am ei wasanaeth wrth yr organ, i'r Athrawon a fu'n hyfforddi'r plant, ac i rieni'r plant oedd yn cymryd rhan am gefnogaeth a pharodwydd i gyd-weithio.



Derbyniwyd y llun uchod gan Deulu'r diweddar William John Davies, Bod Arthur gynt. Pan oedd yn 24 oed 'roedd yn aelod o dîm pêl-droed tref Caernarfon, a gwelir ef yn cael sgwrs â'r diweddar Brif Weinidog David Lloyd George ar gae chwarae'r dref. Bu'n aelod o dîm pêl-droed Llanberis am flynyddoedd ac yn ei ddydd 'roedd yn cael ei ystyried yn un o'r rheolwyr mwyaf poblogaidd ac yr oedd gofyn mawr am ei wasanaeth fel rheolwr ymhell ac agos.

YDN (CND) – Dymuna'r grŵp Ymgyrch Diarfogi Niwcliar lleol ddiolch i bawb yn y pentref am y croeso cynnes a'r gefnogaeth frwd i ddeiseb Ymgyrch Diarfogi'r Byd. Cynhelir cyfarfod sy'n agored i bawb sydd â diddordeb yn yr Ymgyrch yn y Ganolfan am 7.00pm, nos Fercher, Chwefror 10.



PONC ROWLER yn fuan ar ôl y Rhyfel Gyntaf. Llun o eiddo Owen Thomas, 4 Stryd Turner, Llanberis. Ef yw'r hogyn bach ar y chwith yn y rhes uchaf – yr unig un o'r criw sy'n fyw heddiw. Mr Brwynog Jones, yr Arolygwr yw'r dyn â'r het yn yr ail res, a Mr John Williams, Minffordd – y marciwr – yw'r dyn sy'n eistedd o'i flaen.

BUDDUGWYR Y RAFFL Tim Pêl-droed Ieuencid Llanberis

1. £25 – Terry, Bryn Cwm-y-glo; 2. Cwrw – 11 Water St., Llanberis; 3. Chwisgi – Cyril Whessoe; 4. Addurn allan o lechi – Commando; 5. Chwisgi – Mair Williams, Bryn Celyn, Rallt Goch; 6. Gwin – Smile, Bull, Deiniolen; 7. Sieri – Ken Jones, 6 Blaen Ddôl; 8. Sigarennau – Meirwen, 25 Dol Elidir; 9. Dartiau – T.C. Huws, 50 Maes Barcer, Caernarfon; 10. Sieri – B. Bracegirdle, 40 High St., Penygroes; 11. Gwin – The Tea Shop, Gerafon, Llanberis; 12. Bisgedi – Katie Noel, 47 Dol Elidir; 13. Sigarennau – Hughes, 87 Maes Padarn; 14. Gwin – I. Roberts, 56 Dol Elidir; 15. Sieri – Llifon Ffoulkes, 84 Maes Padarn; 16. Siocled – Noel I. Limbo; 17. Porc – Neville Brymer Jones, 36 Dol Elidir; 18. Siocled – D.A. Davies, 7 Tanrhiw Rd., Tregarth; 19. Siocled – L.J. Griffiths, Snowdonia Board Sailing Centre.

Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

FFUG EISTEDDFOD YR ECO
Gobeithio fod pawb yn y pentref yn paratoi ar gyfer y steddfod, sef uchafbwynt y gaeaf ym Mro'r Eco!



DRAENOG

Oes gwir yn y stori fod llewpard eira yn crwydro ardal Allt Goch a Llawnwen. Llun os gwelwch yn dda.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202


TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

**ATGYWEIRIO DODREFN
'FRENCH POLISHING'
UGAIN MLYNEDD O BROFIAD YN Y
GWAITH**

J. RHEON PRITCHARD

14 GLANRAFON
BONTNEWYDD

Ffôn: Caernarfon 3507)



DEINIOLEN

FFUG EISTEDDFOD YR ECO
Gobeithio bod pawb yn y pentref
yn paratoi ar gyfer y 'steddfod, sef
uchafbwynt y gaeaf ym Mro'r
Eco!

YR YSGOL FEITHRIN - Ddiwedd Tachwedd cynhaliwyd noson o Fingo yn Ysgol Gwaun Gynfi, a'r elw yn mynd at yr Ysgol Feithrin. Yn galw'r rhifau oedd Mr Ellis Wyn Williams, Ffordd Ddeiniol, a'r enillwyr oedd fel a ganlyn: Mrs Nancy Thomas; Mrs Eurwen Roberts, Mrs Katie Wyn Jones, Mrs Georgina Davies, Mrs Joyce Jones, Mrs Eira Wyn Hughes, Mrs Eirlys Gibson, Miss Wendy Close, Mrs Edna Jones, Mrs Nan Roberts, Mrs Annie C. Davies, Mr Robin Evans, Miss Kathleen Jones, Mrs Cynthia Davies. Enillwyr y raffl oedd Mrs L. Jones, Tŷ Mawr Cottage, Mrs Keith Evans, Mrs Nancy Rowlands. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd ac yn arbennig i Mrs Eurwen Roberts a Mr Ellis W. Williams a Mr Robin Evans.

PARTI NADOLIG - Mwynhaodd plant yr Ysgol Feithrin, ynghyd â'u mamau, eu parti Nadolig ar Ragfyr 10. Yr oedd yr adeilad wedi ei addurno i'r pwrpas gan Mrs Rosina Worth a Mrs Glenys Marzelos. Galwodd Siôn Corn (Mr Dafydd Evans) gyda llond sach o anrhegion i'w rhannu i'r plant. Enillwyr y raffl oedd:

Hamper: Mrs Jones, Blaen-y-Cae.
Hamper: John Andrew Williams, Stryd Fawr. **Potel Sieri:** Glyn Allen, Caradog Place. **Potel Sieri:** Mrs Hughes, Eirlys, Clwt-y-Bont. **Cyw Iâr:** Iolo Griffith, Fron. **Lliain Bwrdd:** Mrs Nancy Owen, Bangor. **Talc:** Mrs Tucker, Caerdydd.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at y parti, y Raffl, ieu mewn arian i gronfa'r Ysgol Feithrin. Diolch hefyd i Mr Dafydd Evans am fod yn Siôn Corn mor dda. Er gwaetha'r tywydd garw ar Ragfyr 16 mwynhaodd mamau'r Ysgol Feithrin eu cinio Nadolig, gyda disgo yn dilyn, yn fferm Bron Eryri, Llanberis.

NEWYDDION Y SEINDORF - Cynhelir Cyfarfod Blyneddol y Seindorf yn Ystafell y Seindorf nos Lun, Chwefror 1, am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

Daeth newyddion drwg i'r Seindorf ar ddechrau'r flwyddyn. Bu farw un a fu'n ffyddlon i'r pwyllgor dros gyfnod o flynyddoedd. Y brawd oedd Mr David Jones, Maes Eilian, Dinorwig. Mae ein colled yn fawr, wrth golli ffyddloniaid fel hyn. Derbyniwr y teulu cyfan ein cydymdeimlad llwyr â chwi yn eich profedigaeth oddi wrth aelodau'r Pwyllgor a'r Seindorf.

ENILLWYR CLWB 200 y Seindorf am fis Ionawr: 1 (£25): Rhif 159, Carol Griffiths, 38 Dôl Elidir, Llanberis. 2 (£15): Rhif 54, R. Williams, Tan-y-Fron, Fachwen, Dinorwig. 3 (£5): Rhif 90, W.G. Morris, Tŷ-Oer, Clwt-y-Bont, Deiniolen.

DIOLCH - Dymuna Mrs Olwena Jones, 25 Pentre Helen, ar ei rhan hi a'r plant, Angela, Steven ac Anita, ddiolch o galon i chwi i gyd am y caredigrwydd a'r cymorth a dderbyniasant gan bawb yn ystod eu profedigaeth sydyn o golli priod a thad, Alex Jones.

Diolch i bawb.

MIRI MEIRA

A glywsoch am Firi Meira
Dros gyfnod dyddiau'r Wyl
Rhaid oedd tynnu ei dannedd uchaf
A difetha'r sbri a'r hwyl.

Bu Arthur a Kevin yn dioddef
Wrth 'molchi gyda'r wawr
O'u blaen ar y sil 'roedd y dannedd
Yn gwenu arnynt fel cawr.

Dros nos fe'i gadawodd mewn gwrydryn
I socian mewn gloyddwr glân

8

Ac yna anghofio amdanynt
Wrth swatio o flaen y tân.

Dim Twrci na phwdin i Meira
Dim ond sipian rhyw lolipop
Beth arall fedra hi fwyta
'Roedd rhew wedi cloi y set top.

Bu rhaid iddi fynd at y deintydd
I drin y boen a'r briw
Rhyw wreiddyn oedd yn tyfu
A Meira'n ddigon di-liw

Ond dal i fyned i weithio
Wnaeth Meira i'r 'Cambrian Canteen'
Gan gasglu y llestri o'r byrddau
Heb air, na gwên, ar ei min.

Fe guddiai ei cheg â hances
Rhag dangos i'r dynion ei nam.
Ond wrth fod yr hances mor fychan
Buasai'n well pe bai wedi cael 'ffan'!

Ond eto ar droad y flwyddyn
Mae'r teulu yn hapus a llon
Mae Meira yn bictiwr i'w gweled
A'r Sgleinarn yn ôl ar y gym.

DIOLCH unwaith eto i bawb am eu dymuniadau da i Mr John Williams, 3 Cynfi Terrace, tra bu yn Ysbyty Bryn Seiont ac ar ôl dyfod adref.

DYMUNA Mr a Mrs W.M. Hughes, Rhiwen, ddiolch am bob caredigrwydd a gafodd Mr Hughes yn Ysbyty Môn ac Arfon a hefyd yn Clatterbridge. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn ac am bob cymwynas. Diolch i bawb.

SEFYDLU'R PARCH TREFOR LEWIS - yn weinidog Ebenezer. Nos Fawrth, Ionawr 5, cynhaliwyd cyfarfod sefydlu'r Parch Trefor Lewis BD, Deiniolen, yn weinidog ar Eglwys Annibynnol Ebenezer. Mae Mr Lewis yn gweinidogaethu yn Neiniolen ers tair blynedd bellach, gydag eglwysi Disgwylfa a Chefn-y-Waen dan ei ofal. Y Parch Huw John Hughes oedd llywydd y cyfarfod. Cymerwyd rhan gan nifer o weinidogion y cylch. Mr Richard Hughes a siaradodd ar ran Henaduriaeth Arfon, a Mr Eifion Williams a oedd yn cynrychioli gofalaeth Disgwylfa a Chefn-y-Waen. Y prifathro R. Tudur Jones oedd yn gyfrifol am y sefydlu, ac wedi'r sefydlu, croesawyd y gweinidog ar ran Eglwys Ebenezer gan Mr Gwyn Parry. Ar ôl eitem o groeso gan blant yr Eglwys, cafwyd pregeth gan y Parch R. Tudur Jones. Mynychwyd y cyfarfod gan lawer iawn o bobl o bell ac agos, gan gynnwys cynrychiolaeth o Gaergybi. 'Roedd Ebenezer wedi bod yn ddi-weinidog ers bron i bedair blynedd ond wedi elwa'n fynych oddi wrth wasanaeth Mr Lewis. Yn hytrach na meddwl yn nhermau rhannu gweinidog o Annibynnwr gydag eglwys Annibynnol arall yn y cylch teimlid mai peth mwy ymarferol a fyddai bod dan ofal gweinidog 'bro', gweinidog yn byw yn Neiniolen, un a fyddai â chysylltiad beunyddiol ag aelodau Ebenezer. Mr Lewis, felly, oedd y dewis amlwg. Nid yw Deiniolen yn arloesi cyn belled ag y mae gofalaeth gyd-enwadol yn y cwestiwn. Mae'r egwyddor wedi'i harbrofi eisoes mewn lle fel Carmel, ac fe'i gweithredir ar hyn o bryd ym Meddgelert. Yr hyn sy'n bwysig ynglŷn â'r fenter yn Neiniolen yw nad unrhyw bwyllgor cenedlaethol sydd wedi gorfodi'r sefyllfa ar Eglwys i'r Pentref. Yn hytrach, gwir ddymuniad i gael eu gweinidogaethu o du'r aelodau sydd wedi arwain i'r sefyllfa. Mae tair Eglwys yr ofalaeth newydd wedi cydweithio llawer yn y gorffennol. Her y dyfodol yw sicrhau y bydd y fenter hon yn Neiniolen yn llwyddo ac y bydd yr achos Cristnogol yn y pentref, nid yn unig yn dal ei dir ond yn cryfhau.

Gwyn Parry

FFUG-EISTEDDFOD BRO'R ECO - Da oedd gweld nifer o bobl Deiniolen a Dinorwig yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth 'Farddonllyd a llethol'. Gobeithio yn awr, bod yna rai yn mynd ati i baratoi ar gyfer y

cystadlaethau llwyfan. Siawns bod yna rai yn Neiniolen a all adrodd (gyda phob gair yn y darn a ddewisir yn dechrau'r â'r llythyren W). Os ceir digon o enwau, trefnir bws i gychwyn o Dinorwig, noson yr Eisteddfod, Chwefror 5. Enwau'r teithwyr a gwybodaeth ynglŷn â'r cystadlu i Gwyn Parry, Bro Dawel. Llanberis 736, os gwelwch yn dda.

DIOLCH - Dymuna Gloria a Fred Thomas, 35 Rhydfadog ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag at eu mab Mark, tra bu o dan law-feddygaeth yn Ysbyty Alder Hey Lerpwl. Diolch hefyd i'r dynion a fu'n gyfrifol am gael anrheg Video i Mark ac i bawb a gyfrannodd mor anrhydeddus. Diolch i bawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Oherwydd gerwinder y tywydd bu raid gohirio cyfarfod mis Ionawr. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 1, pryd y disgwylir Mrs Richards, Caernarfon i ddangos ffilm ar Batagonia.

DYDDIADAU I'W COFIO - Sefydliad y Merched, Chwefror 1: Ysgol Gwaun Gynfi - gyda Mrs Richards, Caernarfon; ac Ebrill 5: gyda Mrs Griffiths o'r 'Citizens Advice, Caernarfon'.

CLWB ELIDIR - Oherwydd y tywydd mawr yn ddiweddar gohiriwyd Swper Nadolig Clwb Elidir oedd i gael ei gynnal ar Ragfyr 21. Fe'i cynhaliwyd nos Fawrth, Ionawr 12 ym Mron Eryri, Llanberis. Gwnaethpwyd y trefniadau gan y

Llywydd, Mrs C. Marren. Daeth nifer dda o'r pensiynwyr ynghyd. Mae aelodau'r Clwb yn dra diolchgar i ddau berson a ddymuna fod yn anhysbys am eu rhodd anrhydeddus, un o £20 a'r llall o £50. Diolch hefyd yn arbennig i Bwyllgor y Carnifal 1981 am eu rhodd anrhydeddus o £100 i'r Clwb. Daeth Brenhines y Carnifal sef Miss Briget Hughes, 4 Tai Gwyrfa, i Fron Eryri i gyflwyno'r siec i Mrs C. Marren. Enillwyd y raffl gan: Mrs Ruthie Williams, 19 Hafod Oleu, Mrs Nell Williams, Chwael Goch gynt, Rhydfadog yn awr; Mrs Mary Griffith, 57 Pentre Helen; Mrs Woodcocks, 15 Maes Gwylfa. Diolch hefyd i Mrs Sally Lewis, Glyn Terrace am fynd o gwmpas yr aelodau i'w hysbysu am y trefniadau. Diolchwyd i Mrs C. Marren, a staff Bron Eryri gan Mrs Trevor Lewis. Gobeithir ail-ddechrau'r Clwb tua diwedd mis Chwefror i ddechrau fis Mawrth. Daw manylion eto ymhellach ymlaen.

CYNGOR EGLWYSI - Fore Nadolig gweinyddwyd Sacrament Swper yr Arglwydd yn Nisgwylfa. Nos Sul, Rhagfyr 27, cafwyd Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Llandinorwig pryd y cymerwyd rhan gan aelodau Eglwysi a Sefydliadau'r Ardal. Nos Lun, Ionawr 4, cafwyd gwasanaeth dechrau blwyddyn yng Nghapel Libanus wedi ei drefnu gan y Parch I.L. Williams.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Ar Chwefror 10, ceir perfformiad gan Theatr Bara Caws yn y pentref.

LLWYDDIANT LISA



Ddydd Sul, Ionawr 17, roedd Theatr Gwynedd yn orlawn i wyllo plant o bob rhan o Wynedd yn perfformio yn y gystadleuaeth Choreograffig gyntaf o'i bath i'w chynnal yn yr ardal.


Llwyddodd Lisa Jane Rudkin, sy'n ddeg oed, ac yn byw yn Hen Swyddfa'r Heddlu, Llanberis i ddod yn ail yn ei hadran ac enillodd dlws.

Ar gyfer y gystadleuaeth creodd Lisa ei dawns ei hun a'i galw, 'Y Plismon Ymffrostgar' i gerddoriaeth y gyfres deledu 'Juliet Bravo'.

'Roedd y beirniad yn un o arholwyr Bale blaenaf Prydain, ac newydd ddychwelyd o wlad dramor ar ôl beirniadu tair mil o blant.

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

SIANEL 4 CYMRU

Cwestiynau ac Atebion

Ym mis Tachwedd y flwyddyn hon bydd S4C yn dechrau teledu.

BETH YW S4C?

Awdurdod Sianel Pedwar Cymru yw'r trydydd Awdurdod Darlledu i'w sefydlu yng ngwledydd Prydain - corff annibynnol fel y BBC a'r Awdurdod Darlledu Annibynnol gyda chyfrifoldeb yn unig i'r llywodraeth. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gomisiynu'r rhaglenni Cymraeg ac ail-drefnu amserlen Channel Four - yn ôl anghenion gwylwyr Cymru.

PA EFFAITH A GAIFF S4C AR RAGLENNI CYMRAEG?

O fis Tachwedd nesaf ymlaen bydd y rhaglenni Cymraeg i gyd yn cael eu teledu ar S4C, gan gynnwys wrth gwrs, y rhai sydd ar hyn o bryd yn ymddangos ar HTV a'r BBC. Bydd cynnyrch teledu Cymraeg yn cynyddu o 15 awr i 22 awr yr wythnos h.y. cyfanswm o tua thair awr y dydd ar gyfartaledd. Bydd rhaglenni plant tua 5 o'r gloch a'r gweddill ar yr oriau poblogaidd, rhwng 7 a 9.30 gyda'r hwyr.

PWY FYDD YN CYNHYRCHU RHAGLENNI CYMRAEG AR GYFER S4C?

Ni fydd S4C ei hun yn gwneud rhaglenni - dim ond un stiwdio ar gyfer Cyhoeddi a Chysylltu fydd yng Nghaerdydd. Daw'r rhaglenni Cymraeg o dair ffynhonnell - y BBC, HTV a Chynhyrchwyr Annibynnol. Bydd bob math o raglenni yn cael eu darlledu gan gynnwys rhaglenni ysgafn, dramâu, cerddoriaeth a chwaraeon. Bydd newyddion y dydd a materion cyfoes gartref ac oddi cartref yn cael lle blaenllaw.

A FYDD RHAGLENNI SAESNEG AR S4C?

Bydd. Yn ogystal â 22 awr o raglenni Cymraeg bydd dros 40 o oriau o Saesneg wedi eu dehol gan S4C o gynnyrch Channel Four. Bydd S4C yn medru addasu'r oriau a'r cynnyrch yn y fath fodd fel y bo gwylwyr y sianel yn gweld y deunydd gorau posibl ar yr amser gorau posibl.

PWY SY'N TALU AM S4C?

Mae S4C wedi derbyn £20 miliwn tan ddiwedd mis Mawrth 1983 - cyfnod sy'n cynnwys y pum mis cyntaf o ddarlledu. Daw'r arian

gan yr Awdurdod Darlledu Annibynnol - yr un ffynhonnell ag sy'n talu am y bedwaredd sianel yng ngweddill gwledydd Prydain.

SUT MAE'R ARIAN YN CAEL EI WARIO?

Mae'r £20 miliwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prynu offer technegol, i dalu staff a rhenti ac, wrth gwrs, i brynu rhaglenni gan HTV a chomisiynu deunydd cynhyrchwyr annibynnol. Er enghraifft, bydd S4C yn gwario tua £5 miliwn y flwyddyn ar raglenni gan gynhyrchwyr annibynnol. Telir am raglenni'r BBC o'r drwydded deledu.

A FYDD ANGEN PRYNU SET DELEDU NEWYDD I DDERBYN S4C?

Na. Onibai bod eich set bresennol dros ddeng mlwydd oed, mae bron yn sicr y bydd yn medru derbyn S4C. Ond fe fydd angen tiwnio'r pedwerydd botwm ar y set cyn medru derbyn y gwasanaeth yn berffaith.

'JOIO'

Mae'r B.B.C. yn trefnu cyfres newydd ar gyfer Radio Cymru. Y teitl yw 'Joio' a'r syniad yn fras yw holi pobl ynglŷn â'r hyn y mae'r gair yn ei gyfleu iddyn nhw.

Cynhelir cystadleuaeth wythnosol - cyfle i rywun ennill set radio VHF.

GWYL WERIN CAERNARFON 1982 Cyfarfod Cyhoeddus

Gwahoddir pawb sydd a diddordeb yn yr Wyl uchod i gyfarfod a gynhelir yn yr Aelwyd, Caernarfon am 7.00, nos lau, Chwefror 4.

PENBLETH

Dyma'r ateb i'r pos a osodwyd yn y rhifyn diwethaf:

		5	12
	15		
		10	
13			

YSGOL DOLBADARN LLANBERIS - DAU GYFNOD



Disgyblion safon 5 yn y flwyddyn 1927



Tua 1948-49. Diolch i Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, Cwm y Glo am y llun.

COFIWCH

AM
DDIGWYDDIAD Y
FLWYDDYN
FFUG
EISTEDDFOD
BRO'R ECO

yn

YSGOL BRYNREFAIL
Nos Wener, 5
Chwefror am 7.30

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

Eisteddfod Gadeiriol GYNTAF Dyffryn Clwyd

Dydd Sadwrn, Mai 1, 1982
Testun y Gadair (Drws
Gobaith)

Cyfansoddiadau i law
erbyn Ebrill 17, 1982
Enwau cystadleuwyr actio
Drama Fer erbyn Chwefror
1, 1982.

Rhestr Testunau a
manyion pellach gan yr
ysgrifennydd
Miss Gaenor Edwards,
3 Bryn Elwy,
Llanelwy, Clwyd
Ffôn: Llanelwy 583599

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

Ysgol Foduro Arfon



Hyfforddwr Profiadol
Gwasanaeth o Ddrws i
Ddrws.

Pris Rhesymol

Tacsis K.T.

Cludwyr ymhell ac agos
Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Caernarfon 76105

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:

PENLLYN 285
neu PADARN 327

06190 – O CHWECH I NAW DEG!



Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
**DYFRIN
Y
DEWIN**

CHWEDLAU MÔRLADRON YR YNYSOEDD PELL

1. Aur y Ddraig Werdd

Ymhell bell ar draws y môr 'roedd llong Caradog Goch y môr-leidr yn hwylio'n y gwynt. Hwyliau coch oedd ar long Caradog. Eisteddai Caradog ar fwrdd y llong yn edrych ar fap. 'Roedd yn hen fap, ac ar ei ganol 'roedd ynys fechan. Ar yr ynys 'roedd aur wedi ei guddio mewn ogof dywyll wrth ymyl craig fawr ddu ar lan y môr. 'Roedd croes wedi ei marcio ar y map i ddangos lle'r oedd yr aur. Llywiodd Caradog y llong i gyfeiriad yr ynys, ac ar ôl hwylio am oriau ar draws y môr, gwelodd ynys fechan yn y pellter. Daeth yn nes i'r ynys, a gwelodd fryniau isel a choedydd trwchus arni. Yna, gwelodd draeth unig. Ar y traeth 'roedd craig fawr ddu.

"Mae'r ogof dywyll wrth ymyl y graig," meddai Caradog Goch. "Byddaf yn siŵr o ddarganfor yr aur."

'Roedd y llong bron wedi cyrraedd y traeth, a gwelodd Caradog fod rhywbeth ar y graig fawr ddu. Nid oedd yn siŵr iawn beth oedd yno. O'r tu ôl i'r graig fawr ddu 'roedd ogof dywyll.

"Rwan am yr aur," meddai Caradog Goch.

Ond yna, gwelodd beth oedd ar y graig fawr ddu. Draig werdd! 'Roedd y ddraig yn cysgu ar y graig. Aeth wyneb Caradog Goch yn wyn. 'Roedd wedi dychryn yn arw. Llywiodd ei long oddi wrth y graig ac allan yn ôl i'r môr. Os oedd draig werdd yn gwarchod yr aur, yna, 'roedd gormod o ofn ar Caradog Goch i geisio'i ddwyn.

Ymhell bell ar draws y môr 'roedd llong arall yn hwylio'n y gwynt. Hwyliau gwyrdd oedd arni, a Gwydion Wyrdd oedd enw'r môr-leidr. Eisteddai Gwydion ar fwrdd y llong yn edrych ar fap. 'Roedd yn hen fap, ac ar ei ganol 'roedd ynys fechan. Map tebyg iawn i fap Caradog Goch oedd gan

Gwydion. Ar yr ynys 'roedd aur wedi ei guddio mewn ogof dywyll wrth ymyl craig fawr ddu ar lan y môr. Yn sydyn, daeth pŵff o wynt a chwythu map Gwydion dros ochr y llong i ganol y môr.


"Dyna hen dro," meddai Gwydion. "Rwan 'does gen i ddim gobaith dod o hyd i'r aur. Dyna hen dro cas!"

Hwyliodd llong Gwydion Wyrdd ymlaen dros y môr. Hwyliodd heibio i'r ynys fechan a'r graig fawr ddu a'r ogof dywyll, ond ni wnaeth Gwydion sylwi arnynt. Hwyliodd llong Gwydion ymlaen i'r machlud, ac anghofiodd yntau am yr aur.

Ymhell bell ar draws y môr 'roedd llong Heilyn Las y môr-leidr yn hwylio tua'r ynys lle'r oedd yr aur wedi ei guddio. 'Roedd gan Heilyn fap o'r ynys hefyd. Yn fuan iawn daeth llong Heilyn Las at yr ynys.

"Gobeithio fod yr aur yn dal ar yr ynys," meddai Heilyn. "Gobeithio wir nad yw Caradog Goch neu Gwydion Wyrdd wedi darganfod yr aur."

Daeth llong Heilyn Las yn nes at yr ynys, a gwelodd fryniau isel a choedydd trwchus arni. Yna,



gwelodd draeth unig. Ar y traeth 'roedd craig fawr ddu.

"Mae'n siŵr fod yr ogof dywyll wrth ymyl y graig fawr," meddai Heilyn. "Rwan am yr aur."

'Roedd y llong bron wedi cyrraedd y traeth, a gwelodd Heilyn y ddraig werdd yn cysgu ar y graig.

"Oho!" meddai Heilyn Las, "y ddraig werdd sy'n gwarchod yr aur. Bydd yn rhaid i mi fynd i'r ogof ar hyd llwybr arall."

Felly, hwyliodd heibio i'r traeth lle cysgai'r ddraig werdd, a glaniodd mewn rhan arall o'r ynys. Cerddodd Heilyn dros y brynau isel a thrwy'r coedydd trwchus nes cyrraedd y traeth. Roedd Heilyn yn cuddio o'r tu ôl i'r coed rhag i'r ddraig werdd ei weld. Aeth Heilyn yn ddistaw, ddistaw bach ar hyd y traeth tua'r ogof. 'Roedd y ddraig wedi deffro, ac yn edrych allan i'r môr. 'Roedd y ddraig yn gwylio rhag môr-ladron, ond ni feddyliodd am edrych o'r tu

ôl, lle'r oedd Heilyn Las yn cuddio. Cerddodd Heilyn yn ddistaw, ddistaw bach heibio i'r graig fawr ddu ac i mewn i'r ogof dywyll. Ym mhen draw'r ogof 'roedd cerrig mawr. Gwelodd Heilyn rhywbeth yn sgleinio o dan y cerrig. Edrychodd i lawr a gwelodd yr aur. Rhoddodd Heilyn yr aur i mewn yn ei sach, a cherddodd yn ddistaw, ddistaw bach allan o'r ogof. 'Roedd y ddraig yn dal i syllu allan i'r môr. Aeth Heilyn ar draws y traeth, yn ôl drwy'r coedydd trwchus a thros y brynau isel. Daeth yn ôl i'w long a hwyliodd i ffwrdd o'r ynys.

'Roedd y ddraig werdd yn dal i eistedd ar y graig fawr ddu pan hwyliodd llong Heilyn Las heibio. Gwyliodd y ddraig y llong yn diflannu dros y môr. Yna, gorweddodd y ddraig werdd i lawr, ac aeth yn ôl i gysgu ar y graig fawr ddu wrth ymyl yr ogof dywyll. Ond, 'doedd dim aur yn yr ogof rwan.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



YNYS PLWM PWDIN

Ydych chi'n cofio'r gystadleuaeth yn rhifyn y Nadolig yn holi ynglŷn ag enwau lleoedd yn y byd sy'n gysylltiedig â'r Nadolig? 'Doedd yr holwr ddim yn siŵr iawn a oedd y fath le ag Ynys Plwm Pwdin yn bod. Wel, mae 'na!

'Does dim cofnod sicr i ddweud pwy a roddodd yr enw i'r ynys, na pha bryd, ond y mae'n bosibl fod y môr-leidr enwog, Capten Kidd yn gwybod am ei bodolaeth mor bell yn ôl â 1696.

Mae'r ynys wedi ei lleoli oddi ar arfordir un o'r rhannau mwyaf diarffordd yn y byd, sef Namibia neu Dde-Orllewin Affrica. Diffeithwch anial yw'r Namib, yn ymestyn o Afon Orange ar y terfyn â De Affrica, hyd afon Cunene sy'n ffurfio'r terfyn â gwlad Angola i'r gogledd.



Mae nifer o fân ynysoedd oddi ar arfordir y diffeithwch, a daethant i sylw'r byd tua chanol y ganrif ddiwethaf pan sylweddolwyd fod tunnelli o 'guano' (baw adar) ar rai ohonynt. Heidiodd llongau o Brydain yno i gasglu'r guano a'i werthu fel gwrtaith. Erbyn 1845, roedd 300,000 o dunelli o guano wedi eu cario oddi ar un ynys yn unig; ac ar un cyfnod, roedd 250 o longau yn disgwyl i lwytho oddi ar un arall o'r ynysoedd. Yn ystod



y llwytho hwn, daethpwyd o hyd i arch morwr o'r Iseldiroedd a gladdwyd yno yn 1689. 'Roedd yr arch tua 5 metr o dan y guano.

Erbyn diwedd y ganrif ddiwethaf daeth y busnes casglu guano i ben a daeth Namibia dan reolaeth yr Almaenwyr. Tua'r cyfnod hwn y darganfuwyd gemau yn anialwch Namib, a gwaharddwyd pobl o'r ardal rhag i bawb dyrru yno i chwilio am emau. O hyn ymlaen yr enw ar yr ardal fyddai 'sperrgebiet' sef y diriogaeth a waharddwyd. Mae'r wlad yn parhau yn un o brif ardaloedd casglu a chloddio am emau yn y byd.

Nid oes dim hynodrwydd yn perthyn i Ynys Plwm Pwdin. Erbyn heddiw, does neb yn byw arni ar wahân i gannoedd o adar môr, yn enwedig y bilidowcar a'r pengwyn.



HEILYN LÂS YN CHWILIO AM DRYSOR Y DDRAIG



CHWILIWCH AM Y COED

Mae'r coed hyn wedi eu cuddio yn y sgwâr: DERWEN, BEDWEN, COLLEN, ONNEN, HELYG, CASTAN, FFAWYDD, CELYN, PIN, POPLYS, SYCAMOR, YWEN.

P	I	N	Dd	Y	W	A	FF
C	D	C	E	L	Y	N	B
S	A	E	G	Y	L	E	H
Y	FF	S	R	A	D	LH	B
L	W	Dd	T	W	S	O	R
P	T	E	E	A	E	C	I
O	D	N	N	E	N	N	O
P	R	O	M	A	C	Y	S

RHAI O ADAR LLYN PADARN

gan Leslie Larsen

Y mae llynnoedd bas fel Llyn Ogwen (10 troedfedd ar ei ddyfnaf) yn rhewi ar ôl ychydig o dywydd rhewllyd tra mae angen cyfnod go hir o'r fath dywydd i rewi llynnoedd dwfn fel Cwellyn (114 troedfedd) a Phadarn (94 troedfedd). Eleni am ychydig ddyddiau fe rewodd Padarn. Rhewodd am gyfnodau hirach, yn 1963, 1945 ac 1947. Ys gwn i a oes rhywun o ddarllenwyr yr Eco wedi nodi'r gaeafau pan rewodd Padarn? Os oes, gadewch inni wybod os gwelwch yn dda.

Yn 1963 yr oedd Llyn Padarn wedi rhewi am gyfnod o thua 6 wythnos ond serch hyn yr oedd un aderyn mawr amlwg ar rew y llyn. Aderyn gwyn swnllyd gyda phig melyn oedd hwn, sef yr Alarch Gwyllt. Daw o bryd i'w gilydd yma yn ystod gaeafau oer. Yr alarch cyffredin yma ydy'r Alarch Dof; dyma'r alarch gyda phig oren neu goch sydd i'w weld yn ein parciau.

Yr amser hwn o'r flwyddyn y ddau aderyn mwyaf amlwg yw'r Wylan Benddu (nid yw'n ddu ar hyd y flwyddyn) a'r Cotiar. Weithiau fe welir tua 60 ohonynt fel cyrc yn y dŵr wrth faes chwarae Llanberis. Mae'r

Cotiar yn debyg i Iâr Ddŵr ond y mae ganddi dalcen gwyn sy'n rhoi bodolaeth i'r dywediad Seisnig "As bald as a coot". Dowciwr yw'r aderyn hwn a gall aros o dan y dŵr am hanner munud neu ragor.

Dowciwr arall a welir yn aml ar y llyn yw'r Bilidowcar sy'n dod i fyny o'r môr i ddal pysgod y llyn; ys gwn i a ydi hwn yn dal y torgoch? Tair hwyaden sy'n weddol amlwg yma; Hwyaden Wyllt, Hwyaden Bengoch (pochard) a Hwyaden Gopog (Tufted Duck). Un ddu yw'r olaf ac fe'i gwelir efo'r Cotieir.

Dau aderyn diddorol arall yw'r Gwyach Gorniog a'r Gwyach Fach. Bu'r cyntaf yn brin yn ein bro ond ychydig flynyddoedd yn ôl daeth rhwng Rhyd Ddu a Betws Garmon i nythu'n flynyddol. Erbyn hyn hwyrach ei fod yn nythu o gwmpas Llyn Padarn.

Yn yr haf mae'r llyn a'i amgylch yn lle hyfryd; erbyn hyn bydd yr Elyrch Gwyllt wedi dychwelyd i'r Gogledd oer i nythu ac yn eu lle bydd Pibydd y Dorlan (Common Sandpiper) wedi cyrraedd ar ôl gaeafu mewn gwledydd cynnes fel De Sbaen a Gwlad Groeg.



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

DINORWIG

YMDDEOLIAD ATHRAWES – Dymunir bob hapusrwydd a hir oes o fwynhad i Miss Ellen Wynne Jones, Ty'n y Fawnog, ar ei hymddeoliad o fod yn athrawes yn Ysgol Gwaun Gynfi ddiwedd y flwyddyn 1981. Rhoddodd Miss Wynne, (fel y'i hadnabyddir) flynyddoedd lawer o wasanaeth gwerthfawr yn yr ysgol ac mewn ysgolion eraill yn ystod ei gwaith fel athrawes. Diolch iddi am ei llafur diflino.

MARW – Yn ysbyty Dinbych, bu farw Mr David Jones (Dafydd Gaerwen), 5 Maes Eilian, yn 77 mlwydd oed. Cydymdeimlir â'i weddw Mrs Anne Jones, Megan a Mair y merched, Hefin y mab a chyda'r cysylltiadau teuluol eraill yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLIR â Mr Robert Jones, 7 Maes Eilian, a'r cysylltiadau teuluol eraill ym marw ei frawd, Mr David Jones, 5 Maes Eilian.

TRINIAETH YSBYTY – Bu Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian, yn derbyn triniaeth i'w throed yn Ysbyty Eryri, a Mr Renell Williams, Tanyfron yn cael triniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon wedi anffawd i'w droed. Da deall eu bod yn gwella.

CYFARFOD GWEDDI – Nos Iau, Rhagfyr 17, 1981, yn eglwys St Mair,

cafwyd noson o ganu carolau a darlleniadau yng ngofal Miss Annette B. Roberts a Mr Glyn Thomas. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Gymdeithas Undebol, Dinorwig.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Iau, Ionawr 7, 1982, bu cyfarfod gweddi yn Eglwys Sardis (B) dan arweiniad y Parch Ifor L. Williams (B). Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau'r Gymdeithas. Cyfeiliwyd gan Mrs M. Hughes, Groeslon Uchaf.

CYFARCHION Y TYMOR – Anfonwn gyfarchion y tymor at bawb sy'n wael yn yr ardal gan ddymuno Blwyddyn Newydd Hapus i bawb o ddarllenwyr yr Eco.

DIOLCHIADAU – Dymuna Mrs Annie Jones, Megan, Mair a Hefin, teulu'r diweddar Mr David Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig, ddatgan eu diolch diffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Dymuna Mr Robert Jones, (Robin Bach) 7 Maes Eilian, Dinorwig, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar ôl ei brofedigaeth o golli ei annwyl frawd Dafydd.

CYDYMDEIMLIR â'r teuluoedd gafodd golled a difrod gyda'r storm wynt a'r eira ddiwethaf.

FFUG EISTEDDFOD

Gobeithio fod pawb yn y pentref yn paratoi ar gyfer y steddffod sef uchafbwynt y gaeaf ym mro'r Eco.

NANT PERIS

Wedi wythnos o eira, rhew a phrinder dŵr yn y pibellau calondid oedd gweld yr haul yn cyrraedd gwaelod y Nant ar ôl chwech wythnos ddi-haul.

CROESO – Dymunwn fel ardalwyr estyn croeso i Mrs Sian Ifans sydd wedi dod i fyw i Ceunant. Gobeithiwn y bydd yn hapus yn ein plith.

REHOBOTH – Cafwyd cyfarfodydd gweddi bendithiol yn Rehoboth ddechrau'r flwyddyn. Y pregethwr gwadd nos Fercher oedd Dr R. Tudur Jones, Bangor.

YR EGLWYS – Cafwyd cynulliad da iawn yn Eglwys St Peris i'r gwasanaeth noson cyn y Nadolig er gwaetha'r tywydd gerwin.

SIÔN CORN – Bu Siôn Corn ar ymweliad â'r Gobeithlu yn Rehoboth wythnos cyn y Nadolig a chafodd y plant amser da ac anrheg bob un. Diolch i'r cyfeillion a drefnodd yr ymweliad a hefyd i'r rhai a gyfrannodd at yr achlysur.

DEISEB DIARFOGI

Mae grwpiau lleol yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwcliar (CND) wrthi yn ystod yr wythnosau hyn yn mynd â deiseb Ymgyrch Diarfogi'r Byd o gwmpas cartrefi'r fro. Eisoedd dangoswyd y ffilm 'The Bomb' i gynulleidfadau mewn cyfarfod diweddar yn Llanberis a dechreuwyd ar y gwaith o ddeisebu yn Nant Peris, Llanberis, Cwm-y-Glo a Llanrug. Dymuna'r deisebwyr ddiolch am y croeso cynnes a gafwyd ar aelwydydd yr ardal a'r gefnogaeth frwd a fynegwyd ym mron pob tŷ a alwyd ynddo hyd yn hyn. Mae croeso i unrhyw un sydd am helpu gyda'r Ymgyrch i gysylltu â Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug (Caernarfon 3838) neu i ddod i'r cyfarfod nesa yn Y Ganolfan, Llanberis am 7.00pm nos Fercher, Chwefror 10.

FFUG EISTEDDFOD YR ECO.

Gobeithio fod pawb yn y pentref yn paratoi ar gyfer y steddffod, sef uchafbwynt y gaeaf ym mro'r Eco.

COLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU, BANGOR

Adran Efrydiau Allanol

Tymor y Gwanwyn, 1982

Cyrsiau o ddiddordeb i'r cyhoedd, ac efallai yn arbennig i Ddisgyblion Ved a Vled Dosbarth yr Ysgolion Uwchradd:

Chwe Bardd a Chwe Cherdd

cyfres o 6 darlith ar foreau Sadwrn, 11.15-12.45 pm, gan Aelodau o Staff Adran y Gymraeg, o Chwefror 20-Mawrth 27. Rhaglen i'w chael o'r Adran uchod.

Lleoliad: Y Theatr Ddarlithio, Prif Adeilad, Ffordd y Coleg
Tal: 50c y ddarlith (talw wrth y drws). 25c i rai wedi ymddeol a Disgyblion Ysgol.

Cerddoriaeth y Delyn

Ysgol Undydd, dydd Sadwrn, Chwefror 20, 10.00am-4.30pm.
Darlithwyr: Elinor Bennett a Geraint Lewis o'r Adran Gerddoriaeth, Rhaglen lawn i'w chael o'r Adran uchod.

Lleoliad: Yr Adran Gerddoriaeth, Coleg y Brifysgol, Bangor.
Tal: £2.00 (oedolion); £1.00 (Disgyblion Ysgol, ond sylwer nad yw'r cwrs yn addas i blant ifanc newydd ddechrau dysgu.)

Rhaid ymrestru ymlaen llaw, ar y ffurflen gais a geir efo'r rhaglen. **Rhif ffôn. Bangor 51151. Estyniad 494.**

TAN-Y-COED

MARW – Rhagfyr 14, bu farw Mrs Gracie Hughes, 2 Carmel Terrace, Carmel, chwaer Mr Arthur V. Jones, 6 Maesgerddi. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Mr Jones yn ei brofedigaeth sydyn.

COFION – Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Dilys Sharp, Tanycae, a gyfarfu â damwain yn ddiweddar. Da deall bod Mrs Sharpe yn gwella.

LLONGYFARCHIADAU i dri theulu o'r ardal ar dri achlysur hapus yn eu hanes.

Rhagfyr 30, ganwyd mab, Dyfan Arwel i Mr a Mrs Arwel Jones, 30 Glanrafon, Bontnewydd. Llongyfarchiadau i Nain a Taid, Mr a Mrs Arfon Jones, 6 Tai Bryngwyn.

Ionawr 1, ganwyd merch, Margaret Sian i Mr a Mrs Gwynfa Pritchard, Cefn Llwyd. Llongyfarchiadau i Nain a Taid Mr a Mrs William Pritchard, Garnedd.

Ionawr 19, 1982, ganwyd merch i Mr a Mrs Ieuan Williams, Penybryn, Carmel. Llongyfarchiadau i Nain a Taid, Mr a Mrs David Williams, Bryn Hyfryd. Ein dymuniadau da i'r babanod newydd-eni, a'u rhieni.

LLONGYFARCHIADAU i Amllyn Ll. Evans ar basio Arholiad Canu Piano, Gradd 2, dan nawdd y 'Royal School of Music'. Disgybl Miss Clarice Williams, Llanberis yw Amllyn.

Bu chwaer Amllyn – Manon Ll. Evans, ar Gwrs Offerynwyr Llinynnol i Blant Iau yng Nghanolfan Biwmares, o Ionawr 4, hyd Ionawr 7, 1982.

SGWRS – Nos Sul, ar Raglen Rhwng Gŵyl a Gwaith y BBC, rhoddodd Mrs Miriam Ll. Hughes, Rallt Deg, sgwrs ddiddorol am ei phrofiad fel cyfeilydd.

GWASANAETH NADOLIG – Bnawn Sul, Rhagfyr 20, bu Gwasanaeth

Nadolig Plant Ysgol Sul Tan-y-Coed. Trefnwyd y rhaglen gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts. Heblaw anerchiad i'r plant gan y Parch W.O. Roberts, cyfrannodd plant yr Ysgol Sul eitemau amrywiol o ganu, adrodd ac actio.

Y cyfeilyddion oedd Miss Eirian Morris, Mrs Carys Ll. Evans, Manon Ll. Evans a Bethan Parry, a gyfeiliodd i un eitem gyda recorder.

TE PARTI – Bnawn Llun, Rhagfyr 21 oedd diwrnod te parti Plant yr Ysgol Sul, a Babanod yr Eglwys. Wedi'r wledd diddanwyd y plant â ffilmiau symudol gan Mr Gwyndaf Jones, ac yna daeth Siôn Corn a'i sgwrs a'i anrheg i bob plentyn.

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y te parti – caredigion ac athrawon yr Ysgol Sul, y Parch a Mrs W.O. Roberts ac yn arbennig Mr Gwyndaf Jones, Siôn Corn, a Mr Selwyn Jones a sicrhodd yn ôl ei arfer bod Siôn Corn yn cyrraedd yn saff.

CYFARFOD GWEDDI – Nos Lun, Ionawr 4, 1982 – cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi yn Festri Tan-y-Coed. Gwasanaethwyd gan Mrs Jane Humphreys, Annwen Parry, Mrs Katie Roberts, Mrs Katie Williams a Mr R. Arfon Jones.

Nos Fawrth pregethwyd gan y Parch W.O. Roberts. Y cyfeilydd yn y ddau gyfarfod oedd Mrs Jane Humphreys, Annwen Parry, Mrs Katie Roberts, Mrs Katie Williams a Mr R. Arfon Jones.

DIOLCH – Dymunwn ni drigolion Minffrwd a'r cyffiniau ddatgan ein diolchgarwch a'n gwerthfawrogiad i'r cymwynaswr caredig fu'n ein cynorthwyo yn ystod y ddwy storm o eira gafwyd yn ddiweddar. Hefyd diolch i'r ddwy lances siriol a aethant o gwmpas i gynniig cyrchu bara i ni drwy'r eira mawr.

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor.

Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

**Welsh
Development Agency**

BETHEL

MERCHED Y WAWR – Oherwydd y tywydd garw methodd y gangen â chyfarfod yn ystod mis Ionawr. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher Chwefror 10 am 7.30. Bydd y noson yng ngofal Mr Robin Williams o Goleg Glynllifon, a fydd yn siarad am Arddio. I ddathlu Gŵyl Ddewi penderfynodd y Pwyllgor drefnu noson o adloniant, gyda chyw iâr a chips yng Ngwesty Gwynedd Llanberis Mawrth 10.

YSGOL FEITHRIN – Dechreuodd Mrs Lynwen Morris, Perthi ar ei swydd newydd fel athrawes yr Ysgol Feithrin gyda Mrs Eirlys Sharpe fel cynorthwywydd. Mae 16 o blant ar lyfrau'r ysgol erbyn hyn felly os oes plentyn bron yn 2 a hanner rhwch wybod mor fuan ag sy'n bosibl i Mrs Mair Parry yr ysgrifenyddes. Y drysoryddes newydd yw Mrs Gwen Williams, Stad Eryri.

CARNIFAL – Nos Lun 18 Ionawr cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd i ddechrau ar y gwaith caled o drefnu Carnifal 1982. Y swyddogion am y flwyddyn yw: Llywydd, Mr S. Jones, Cefn; Is-lywydd, Mrs Mair Price, Tan y Ffordd; Ysgrifennydd, Mrs Nora Parry, Tan y Buarth; Is-ysgrifennydd, Mrs Jennifer Jones, Tan y Buarth. Trysorydd, Mr

Gwynnaf Williams, Tan y Cae; Is-drysorydd, Mr Geraint Elis, Sycharth. Gobeithir trefnu Noson Goffi yn y Neuadd yn fuan ym mis Mawrth. Byddai'r pwyllgor yn falch iawn o weld aelodau newydd i helpu i drefnu ac i wneud llwyddiant o garnifal eleni eto.

CÔR CADNANT – Bu aelodau'r côr yn canu carolau yn y pentref ychydig cyn y Nadolig, fe gasglwyd £40 tuag at Ganolfan Segontium, Pendalan, Caernarfon.

YR URDD – Bu cant a deg o aelodau'r Urdd a'u ffrindiau yn Theatr Gwynedd yn gweld y pantomeim Guto Nyth Cacwn. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain ac roedd yn werth clywed y gymeradwyaeth i Barry, Lynn a Mandy yn y gystadleuaeth chwistrellu dŵr dros y gynulleidfa.

LLWYDDIANT AR Y PIANO – Llongyfarchiadau i rai o ddisgyblion Mrs Williams, Cefn Gwynt ar eu llwyddiant mewn arholiadau piano yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Cerril Roberts, Carys Owen, Awen Williams, Gwen Jones, Euros Jones, Lynne Hardwidge, Helen Wyn Williams, Mair Hughes, Diane Vize, Angharad Elis, Meinir Owen, Euros Jones, Mari Owen, Angharad Price.

O YSGOL BETHEL



Rhai o enethod safon 3 yn mwynhau eu gwers nofio gyntaf yn y Ganolfan Adloniant newydd yng Nghaernarfon.



Plant safon 4 yn gwrando'n astud ar Dr John Llywelyn Williams o Goleg Prifysgol Bangor yn trafod ein hen, hen hanes. Lluniau: I.L. Jones

CABS PADARN

FFÔN: PADARN 347

Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

PANT Y CLECS

CLWB NEWYDD – Bellach, mae'r miliwnydd o Sbaen: Manuel dorado Leri wedi hen setlo'i lawr yn y Pant. Addawodd brynu ac ailadeiladu'r hen felin i greu clwb cymdeithasol i'r pentref, a bydd yr agoriad swyddogol yn ystod wythnos gyntaf Chwefror. Penderfynodd Senior do Leri wario'i arian ar y Pant er cof am ei fodryb, y ddiweddar Mrs Mary Davies, Lleiniau Cribyn, a fu'n gofalu amdano yn ystod y rhyfel. Enw'r clwb newydd fydd Clwb el Clecs. Croeso i bawb i'r agoriad.

PRIODAS – Yng nghapel Gersom, priodwyd Huw Williams, mab Mr a Mrs Harri Williams, 2 Pant y Ceubren â Gwenhwyfar Prydderch, merch Mr a Mrs Osian Prydderch Ffostrasol. Gwisgai'r priodfab siwt werdd o frethyn Cymreig, gyda streipen wyrdd tywyllach yn y trowsus. Roedd ei grys o frown golau a thei tywyll gyda suribol y Meistri Teilwriaid

arno. Am ei draed roedd esgidiau sodlau uchel o ledr melyn. Gwisgai tad y priodfab siwt ddu a chrys o borffor golau. Roedd ei wallt wedi ei wahanu ar yr ochr chwith ac wedi ei gribo'n ôl yn ofalus. Gwisgai'r briodasferch wyn. Bydd y pâr ifanc yn gwneud eu cartref yn y Faelfa Frethyn, siop ddillad o eiddo Huw. Pob croeso i Gwenhwyfar i'n plith.

CROESO ADREF – Daeth Miss Ann Roberts, Nyth y Frân Wen, gartref o'r ysbyty ar ôl triniaeth. Deallwn fod diffyg ar ei thafod. Croeso'n ôl Miss Roberts; nid oedd busnes y pentref yr un fath heboch.

GENEDIGAETH – Ganed dau oen ar fferm y Cwcwll Du yr wythnos ddiwethaf. Yn anffodus bu farw'r fam, ond y mae Rhys a Rhian yn gofalu am y ddau oen llywaeth. Ai dyma ŵyn cyntaf y tymor yn ardal yr 'Eco'?

O BEN Y GAER

Ar ôl y ffasiwn dywydd 'roedd yn ollyngdod mawr i bawb weld yr eira a'r rhew yn toddi i'r gorffennol, ac fe gafodd y trydan groeso cynnes ar ôl dychwelyd i'r ardal.

Sut oedd hi arnoch chi tybed? Credaf i bawb gael rhyw drybini un ffordd neu'r llall. Bûm i ar un adeg yn tybio mai pibell 'polythene' yr oeddwn ac nid gwraig oherwydd i mi gario cymaint o ddŵr o'r ffynnon i'r tŷ.

Prydferth oedd yr eira yn gorchuddio'r wlad. Pob peth a phob man i'w weld yn lân a diniwed. 'Roedd y plant wrth eu bodd wrth reswm. Antur iddynt oedd mynd at y ffenestr bob hyn a hyn i nodi trwch yr eira. Cyffro mawr y bore wedyn wrth sylwi iddo gyrraedd hanner ffordd i fyny ffenestr y parlwr, a'r hwyf a gafwyd wrth agor drws y cefn a gwylio'r llen gwyn yn dymchwel yn afalans i'r gegin.

Ar ôl amser 'roedd rhywun yn diflasu baglu dros welingtons a chwarae drafftys gyda menyg a chapiau llaith o gwmpas ystôf, ond rhaid i mi gyfaddef i mi fwynhau'r amser. 'Roedd rhyw hud wrth eistedd o gwmpas yr aelwyd yng ngolau kannwyll. Pawb gyda'i gilydd yn deulu cyfan. Y bocs bondigrybyll yn fud yn ei gornel. Dim newyddion o'r byd tu allan i

boeni rhywun a neb yn malio dim. Derbyniais flynyddoedd o hanes yr ysgol mewn un wythnos a dysgaïs chwarae sawl gêm newydd.

Miri mawr oedd coginio fel boi sgowts ar y tân agored. Cymryd hanner awr i ferwi ŵy a hwnnw'n dal i fod yn feddal. Blas mwg ar y tost a'r tatws yn smotiau o huddyl. Panics dychrynlyd pan aeth cynnwys y badell ffrio yn danwydd gyda'r glo.

Digri oedd sylwi ar y plant yn oedi cyn mynd i'r fagddu o lofft. Pob cysgod yng ngolau'r gannwyll yn fygythiol i noson o gwsg.

Erbyn hyn mae'r trydan wedi dychwelyd i'n plith a phob peth yn hwylus unwaith eto. Y sgrin bachog yn dwgdy y plant a'u hanesion difyr, a'r gwres canolog yn gofalu bod pob un â'i aelwyd bach ei hun yn ei gornel ei hun.

Beth bynnag dim ond mynd i'r bocs uwchben drws y parlwr sydd angen a gydag un cyffyrddiad ysgafn ar y switsh caf ddychwelyd eto i'r ynys hud.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670124

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

MAWRTH YNYD

Daw Modryb Grempog heibio'n cartrefi ar Chwefror 23 eleni, 1982. Dyma hen gân o eiddo fy nhad. Gobeithio y cewch flas ar y gân ddisgrifiadol hon ac ar y grempog.

Dydd Mawrth oedd hi hefyd, mi gofiau yn hir, Mawrth Ynyd - Mawrth Ynyd i mi fu yn wir:

'Roedd y Wyddfa yn glaerwen, a'r Ddôl Fawr yn las,
A'r gwynt dros lyn Padarn yn rhoi ei fâs,
Gan foddio gwyllt eco ergydion y graig
A minnau'n lluddedig yn meddwl am saig.

Eis adref o'r gloddfa ynghylch dau neu dri,
Gan gofio fod modryb yn dod i'n tŷ ni:
'Roedd bod ers cryn flwyddyn heb weled ei phryd

Yn ddigon i'm gyrru i'w bwyta i gyd:
Mi frysiais ar funion i ymyl y tân
I edrych oedd gwrid ar ei hwyneb crwn,
glân.

Ond erbyn im gyrraedd 'roedd Beti o'i cho,
A'r radell yn rhydu ar ben y cwt glo:
Hi waedda'n enbydus fod eisiau rhoi cweir

Am ddiffyg yr wyau i'r ceiliog a'r ieir:
A'i llygaid yn tanio, bygythiai yn waeth
I Tomi na frysiai i'r Fron i nôl llaeth!

Brawychais rhag gallu areithiol fy ngwraig,
Yswatiais, fel pe ym mheryglon y graig:
I'm clust daeth dychangerdd holl blantys y wlad -
'Mae nghog i yn grimpan am grempog,'
O'r tad!

A minnau mewn cornel siomedig, ddi-lun,
Heb ddim i gysuro fy nghylla fy hun.

Ond toc daeth y llaeth gyda'r wyau a'r blawd-
Teg arlwy gwledd brenin ar fwrdd y dyn tlawd!

A'r radell fu'n rhydu, yn loyw ar dân,
A'r plant gylch yr aelwyd yn dawnsio i'w chân;

Pa ryfedd fod Modryb mor swil, ac mor noeth,
Ni chadd yn ei bywyd un croeso mor boeth.

Yr hogia'n ei phinsio heb falio pa law,
A Beti a'r twca'n cadw pawb draw:
Pan welais wedd modryb mi dynais fy het:
Ond ceisio ei boddi mewn menynd wnaï Bet;

Rhoed gwynt dan y tegell, a'r llesti'n eu lle,
A lliwiwyd y dŵr gyda llwyed o de.

Ar hyn fe ddaeth Twm a'r tun triog i'r bwrdd,
A gwneuthur llun neidar, a rhedeg i ffwrdd:

Gwnai Robin lun olwyn a'i glynu'n ei foch,
Ac yna ei rhoio i lawr y lôn goch:
A minnau fel person, gan gymaint fy chwant
A gleddais rhen fodryb mor barchus â sant.

Mewn amdo o enllyn o'm golwg aeth hi,
Ond cododd ei hysbryd yn ofid i mi.
Ymguddiai rhyw ellyll o dan ei gwedd dlos,

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Breuddwydion a hunllef fu'm pennyd drwy'r nos:

A thrwy yr holl ofid ces awgrym yn siŵr,
Mai'r gorau o'r seigiau yw bara a dŵr.

Glan Rhyddallt

Y GREMPOG

Un gron dyner groen denau - a blasus

I'r blysig ei enau:

Da ei lle i de rhwng dau,

Gawod fenyn ac wyau!

Glan Rhyddallt

Myn, rhag rhemp, i wneud crempog - amynedd,

Ymenyn a thriog;

Siwgr yn faeth, a llaeth fel llog,

I'w chymysgu chwim ysgog.

Glan Rhyddallt

Aeth ganwaith werth wyth geiniog - ar reidiau

Y radell a'r grempog:

A rhoi'r ymenyn i'r rôg,

A thri o wyau a thriog.

Glan Rhyddallt

DINORWIG YN 1882 Pigion o Ddyddiadur William Morris, Bron Fuches

Ionawr 13: Damwain angeuol trwy syrthio yn y Braich i Hu Ev Griffith, Bryn Du, yn agos i 18 oed.

Chwefror 14: Hu Roberts, Bryn Rodyn gynt, yn syrthio yn ddi-rybudd yn y Garret a marw.

Chwefror 18: Perdoneg yn cael ei dwyn i Gapel Dinorwig, gwerth £30.

Mawrth 4: Talu y waith gyntaf yn office Gilfach Ddu i'r holl chwarelwyr yn lle Blue Peris.

Mawrth 9: Claddu Wm Morris Jones (Hosgin) Caerfoel yn 21 oed wedi boddi ger Rhydychen.

Ebrill 3: Damwain angeuol yn Victoria Quarry, trwy syrthio o'r naill bonc i'r llall, Thos, mab Joseia Williams, Gardda Bach, yn 24ain oed.

Mai 15: Stopio'r Chwarel am Heddyw, Ffair Galanmai.

Tachwedd 18: Clywed y newydd am farwolaeth John Rees Davies, Blue Peris (mab John Davies, Goruchwyliwr y Chwarrel) o Affrica. Wedi ei gladdu ers mis yn ôl, yn agos i 26 mlwydd oed.

BETWS GARMON

TRO TRWSTAN

Yn Nant y Betws ar y Sul
Mae oedfa y prynhawn
A daw'r ffyddloniaid yno
Er na fydd byth yn llawn.

A gŵr Tŷ Capel ddaw i'r cwrdd
Yn dawel a di-stŵr
Hen hogyn iawn yw Emyr
Mae'n gweithio i'r Bwrdd Dŵr.

Un Sul yn o ddiweddar
A'r cwrdd yn mynd ymlaen
Gweinidog yn gweddio
Caed swm, na chaed o'r blaen.

Rhyw dwrw rhochian enbyd
Fel pe bai un mewn strach
'Run fath â hwch yn hochian
Wrth fwydo ei moch bach.

'Rôl gwrandon ddwys am ennyd
A gweld beth oedd y trwst
Fe welwyd Emyr druan
Yn deffro o drwm gwsgr.

Peth cas yw eisiau cysgu
Mewn Capel neu mewn Llan
'Rwy'n llawn o gydymdeimlad
I hyn ddaeth i dy ran.

Wel, Emyr, teimlaf drosot
Yn cysgu ar y Sul
Tra'r gŵr yn ceisio'th helpu
I gadw'r llwybr cul.

Un o'r ardal

GWAELEDD - Drwg oedd gennym glywed am anhwylder iechyd Mr W. Griffith, Caeau Gwynion. Dymunwn wellhad llwyr a buan, gan anfon ein dymuniadau gorau iddo ar ei ben-blwydd yn 81 oed y mis nesaf.

FFUG EISTEDDFOD YR ECO

Gobeithio fod pawb yn y pentref yn paratoi ar gyfer y steddfod, sef uchafbwynt y gaeaf ym Mro'r Eco!

CORNISH FAIRINGS

Gwerthid Cornish Fairings yng Nghernyw (tybed ai'r un gair â Fferins a ddefnyddir am dda-da neu bethau da mewn rhannau o Sir Gaernarfon ydyw). Bisgedi ydynt ac fe'u gwneir yn Truro.

Tarewais ar risêt, a chyda phris bisgedi siop mor ddrud, maent yn werth eu gwneud.

4 owns o fenyn, neu fargarin, llond llwy fwrdd o syrup (defnyddiais i fêl), 6 owns o flawd codi, pinsiad o giabi, llond llwy de o Sunsur mân, 3 owns o siwgrwr.

Toddi'r menynd (neu fargarin) a'r Syrup. Yna, ychwanegu'r blawd, y ciabi a'r sunsur a'r siwgrwr a'u cymysgu'n dda. Yna eu gwneud yn belenni bach, tua maint marblen, rhyw lond llwy de yr un (neu ddarnau bach tri chwarter owns) a'u rhoi mewn tun wedi ei iro'n dda gan ofalu gadael digon o le rhyngddynt. Eu crasu mewn popty cymedrol 375, neu nwy 9 am ddeuddeg i bymtheg munud. Eu gadael yn y tun i oeri ychydig cyn eu rhoi ar wifren i oeri'n llwyr.

G.M. Jones
Y Dalar Deg

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

GERDDI MENAI CAERNARFON (Ffordd Bangor)



Pleser Cyhoeddi agor Ail-Ran o'r Datblygiad
Llwyddiannus yma

'GERALLT' - 3 LLOFFT

- SAFLE ODIDOG
- BYTHYNNOD HARDD
- N.H.B.C.
- GWAITH ADEILADU DA

Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Safle
(Caernarfon 5989) neu'r Brif Swyddfa



Datblygwyr tai a Thwristiaeth

CYMRODYR

hiraethog cyf

Llys Hiraethog, Llain y Capeli,

Dinbych, Clwyd Ffôn Dinbych (074571)3600

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

SIBRYDION O'R YSGOLION YSGOL BRYNREFAIL

Digwyddiad Blyneddol

Yn unol ag arferiad blyneddol mae Mr Iwan Williams unwaith eto eleni wedi rhoi'r gorau i ysmegu, ac yn diflasu pawb yn athrawon a phlant, â'i hunan-gyfiawnder. Y mae'r effaith yn amlwg yn barod, gyda Mr Williams ar ei addefiad ei hun, wedi ennill saith bwys mewn pwysau.

Un peth fydd yn hwb mawr i benderfyniad Mr Williams eleni fydd y swm enfawr o arian y mae wedi ei addo i wahanol achosion da yn y cylch os digwydd iddo lithro, ac ail afael yn yr arfer ffaidd.

(W.H.)

TLWS A.B.L. YSGOLION CYMRU I DIMAU DAN 12 OED

Mae tîm dan 12 oed (y flwyddyn 1af) yr ysgol wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol adran Gwynedd. Yn y rownd ddiwethaf, ar yr 20fed o'r mis, fe enillodd y bechgyn o 3 gôl i 2 mewn gêm galed a chyffrous yn erbyn Ysgol Botwnnog. Matthew Ward, Martin Roberts (Llanrug) a Ian Evans (Llanberis) a sgoriodd. Ysgol y Berwyn, y Bala fydd y gwrthwynebwyr yn y rownd gyn-derfynol. Pob lwc i'r bechgyn yn y gêm honno.

Rhodddwyd gwobrwyon am ganlyniadau arholiadau Safon A, O a TAU Mehefin 1981 i'r disgyblion canlynol gan Reolwyr Ysgol Brynrefail.

Safon A: Gwobr Miss Rowlands i'r ferch a'r canlyniadau gorau - Jennifer Kisalu 'A' Ffiseg, Mathemateg, a Cemeg. Hefyd, gan nad oes gwobr Cymraeg na Hanes, i Iola Llywelyn Gruffydd - 'B' mewn Cymraeg a Hanes.

Gwobr Dr Lloyd Williams i'r bachgen a'r canlyniadau gorau: Glyn Jones 'B' Celf, Daaryddiaeth, 'E' Gwaith Coed (ond canmoliaeth uchel am ei waith ymarferol).

Gwobr Mrs Nell Owen - Mathemateg

DOSBARTH 6 YSGOL BRYNREFAIL 1922-23



Rhes ôl: Llew Hughes, W. Ffowc Roberts, Herbert Thomas, Bob Roberts, Tom Roberts.

Rhes flaen: Iola Thomas, Gracie Hughes, Gwyneth Roberts, Miss E. Jones, Besi Roberts, Jini Davies, Doreen Evans

- Jennifer Kisalu 'A'

Gwobr Mr David Jones Mathemateg - Menna Deulyn Williams, 'A' Mathemateg Ychwanegol.

Gwobr Mr I.L. James - Ffiseg - Jennifer Kisalu.

Gwobr Mr E. Gwyned Evans - Ysgrythur - Mair Eluned Morgan a Lindsay Spry 'B'. **Gwobr Mrs W.V. Jones** - Bioleg - Neb yn deilwng eleni

Gwobrwyon o Gronfa David a Jane Jones

Safon O: Alison Barnes; Carys Wyn Jones; Rhian Glyn Owen; Margaret Ellen Roberts; Tegwen Williams; Keith Jones; Ian Peter Williams; James Spry; Martin Neal Williams; Anthony William Ponton.

Safon TAI o Gronfa Mrs Pary Parry: Jane Anthoine; Jeanette Radnor; Carys Hughes; Rachel Sarah Roberts; Michelle Thomas; Gwen Lloyd Williams; Bryn Jones; Derfel Jones; Darren Thomas.

EIRA YN SBAEN HEFYD

Yn ystod mis Ionawr aeth Mrs Sroe â chriw o ddisgyblion yr ysgol ar gwrs sgîo i Cderl, pentref mynyddig yng nghanol y Pyrenees yn Sbaen. Buont yn aros mewn 'resort' newydd yno, gyda nifer o gyfleusterau ar eu cyfer. Yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn yr eira, a chafwyd haul poeth yno hefyd.

YMWELIAD Â PHRIFYSGOL BANGOR

Yn gynharach yn y mis ymwelodd Mr Gomer Davies, a rhai o ddisgyblion y 6ed dosbarth, â phrifysgol Bangor. Pwrpas yr ymweliad oedd dangos i'r disgyblion y cyfleusterau sydd ar gael ynddo.

CONDUCT UNBECOMING

Bu aelodau dosbarthiadau 4 a 5 yn Theatr Clwyd yr wythnos yma yn gweld un o'r dramâu gosod ar gyfer lefel O, sef 'Conduct Unbecoming'. Mrs N. Manning a Mrs M. Hughes fu'n gofalu amdanynt.



Sefyll: H. Thomas, R. Roberts, W. Ffowc Roberts. Eistedd: Llew Hughes, G.D. Williams. Y ddau lun gan y Parch H. Thomas, Llannor.

TAIR DRAMA FER cyflwyniad Cwmni Drama Eryri

'SYLWADAU' GAN
JIVE CLAMES

1. YR YMADAWEIDIG

Drama am ddwy chwaer yn rhannu eiddo eu tad ar ôl iddo farw'n sydyn; ond yng nghanol y ffrae, mae'r tad yn codi o'i lewyg marwol.

Benjamin Jordan yn fendigedig, ac yn gweddu i'w enw - (bedydd cyhoeddus yng Nghanolfan Adloniant Caernarfon; gwasanaeth dwy-lingual). Sylw'r gynulleidfa wedi ei hoelio ar lewygu Leusa. A fyddai'r gadair yn cael ei thaflu trosodd? A oedd posibl cael cip ar ei dillad isa? Ai rhai du oeddynt fel ei dillad angladdol?

Ond heb os nac onibai, y prif gymeriadau'n y ddrama hon oedd y ddau gloc. Y cyntaf yn taro tri o'r gloch a'r bysedd yn dangos deng munud i wyth (nid rhyfedd i taid godi o farw'n fyw!), a'r cloc larwm oedd wedi ei guddio dan y glustog yn alluog iawn yn medru taflu ei lais i'r chwith o'r llwyfan.

2. MAER Y DREF

Swynwraig ddieithr yn cyrraedd tref fechan yn Rwsia, a'r trigolion yn mynnu ei halltudio am wahanol resymau. Stanislav Tokolyi, y maer, yn gwrandao

cwynion pawb, ac yn gorfod penderfynu ffawd y wraig ddieithr. 'Sgwn i o ble cafodd y maer fenthyg gwallt oren i gyd-fynd â'i farf bendigedig?

Gwendid mawr y set oedd y 'chaise-lounge' ail-law yn ystafell foethus y maer - ac un o'r coesau wedi torri. Gydol y ddrama 'roedd fy sylw ar y darn pren oedd yn dal y goes yn ei lle, a hwnnw'n symud bob tro'r eisteddai rhywun arni. Llauer gwell fyddai cael gweld coesau Zuczka ddeniadol. Ond 'doedd Alexander 'Penitzarvaen' ddim yn gwneud hanner digon o'i gyfle i Zuczka â hi. Gwendid hen lanc efallai?

Daeth y goes oddi ar ei 'brop' pan ruthrodd Mr P(r)opr(h)ad i mewn yn chwifio'i dwca cig, ond er i Madam Sloboda eistedd ar y soffia gloff, daliodd yr hen greadures heb ddisgyn - gwaetha'r modd!

Doedd dim bai ar y dynion yn llygadu Madam Baronya a'i gwisg isel, ond 'roedd cilolwg chwantus ambell un yn awgrymu mai Madam Bra-ona ddylai ei henw fod. Ni chawsom weld hanner digon arni yn y ddrama, ac nid rhyfedd fod Stanislav'r angylion ar y diwedd.

3. UNIGRWYDD


Uchafbwynt y noson. Trueni i'r gynulleidfa ymateb iddi fel drama ddifrifol. Sarah Ormrod yn fendigedig - nid rhyfedd fod ei chefn wedi cryd-cymalu; 'doedd dim esgyrn yn ei staes: nid y rhai pinc beth bynnag, o wyllo Emma'n eu plygu. Ond sut 'roedd posibl i ferch ifanc mor ddeniadol wybod sut i blygu staes a hithau 'rioed wedi gweld angen un ei hun?

Teimlo fel chwerthin lond bol ar y sgwrs hen ffasiwn, drasiadïol, ond pawb o'm cwmpas yn hollol ddifrifol, a minnau'n teimlo'n fwy o ffwl na Sam Horrocks. (Gyda llaw, ydi hwn yn nodweddiadol o gefnogwyr pêl-droed Llanberis?) Perfformiad ardderchog gan Sam o ffwl y pentref yn chwilio am wraig/mam/cwmpeni.

Ficer ffârs oedd y Parch Frank Alleyne, ond 'doedd neb wedi sylweddoli hynny, ond fo'i hun, er ei fod yn wên i gyd yn cydymdeimlo â'r hen wraig.

Roedd angen mwy o 'hamio' ar y ddrama hon, ac efallai un aelod arall i ddechrau'r chwerthin yn y gynulleidfa.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

**MODURDY
MENAI**



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**

Ffôn: Portdinorwic 882
Perchennog: J. Evans

AM HERIO'R BIO BIO



Alun Hughes yn ymarfer ar gyfer yr antur

Mae'n siŵr eich bod yn cofio'r gyfres 'Antur i'r Andes'. Y gyfres am ddringwyr lleol a ddangoswyd ar deledu B.B.C. Cymru y llynedd. Wel, mae un o'r criw, Alun Hughes o Benisa'rwaun, wedi dychwelyd i Dde America. Nid i ddringo y tro hwn ond i ganwio.

Ar Ionawr 6 eleni dihangodd pedwar aelod y tîm o oerni ein gaeaf ni am wres haul yr haf yn Chile. Maent i gyd yn weithwyr neu gyn-weithwyr ym Mhlas y Brenin. Eu nod yw canwio i lawr y 100 milltir uchaf o un o afonydd mwyaf Chile, sef y Bio Bio. Hon yw un o afonydd rafftio gorau'r byd. Os cyflawnir y gamp, y tîm hwn fydd y cyntaf o wledydd Prydain i wneud hynny.

Oherwydd nad oes gan frodorion y wlad lawer o brofiad yn y maes hwn hyd yma, gwahoddwyd yr hogiau i drefnu Slalom. Bydd y ras ganw honno yn cael ei chynnal dan nawdd Cymdeithas Ganwio Chile!

Noddir y fenter gan gwmni National Benzole a bwriedir ffilmio'r antur. Rhaid fydd i'r pedwar gymryd tro ar y camera yn ogystal â chofnodi'r digwyddiadau. Gobeithia'r cwmni ddefnyddio'r

ffilm i hybu gwerthiant yn y farchnad olew.

Dylia'r daith gymryd tua deng niwrnod. I lawr drwy geunentydd dyfnion; dros ddŵr gwyn gwyllt sy'n beryglus iawn mewn mannau. Heibio coedwigoedd anferth a mynyddoedd tanllyd sydd â'u copaon dan eira drwy gydol y flwyddyn. Mynydd Callaqui yw un o'r rhain.

Tardda'r afon rhwng dau lyn uchel ym mynyddoedd yr Andes, yn agos iawn i'r ffin â'r Ariannin. Ar ôl taith o rai cannoedd o filltiroed ymuna'r afon â'r Môr Tawel.

Gan nad oes fawr o wareiddiad wedi cyrraedd yr ardaloedd o gwmpas rhan uchaf yr afon, rhaid oedd i'r criw gario eu anghenion i gyd gyda hwy. 'Roedd yn amhosibl cario digon o fwyd ar gyfer y siwrnai ond mae digonedd o frithyll yn yr afon. Felly 'roedd gwialen bysgota yn hanfodol i'r daith.

Ni chafwyd unrhyw adroddiad hyd yma oddi yno. Ond gobeithiwn erbyn rhifyn Mawrth y bydd yr hogiau yn ôl ac y cawn ragor o hanes 'Alldaith y Rio Bio Bio.'

BRYNREFAIL

MARWOLAETH - Ar Ionawr 1, yn ysbyty Môn ac Arfon, bu farw Mr Griffith Pritchard, Glyn Afon, yn 79 mlwydd oed. Fe adwaenid Mr Pritchard gan bawb fel cymeriad eithriadol o boblogaidd ac yn ddyn diwylliedig a oedd yn diddori mewn hanes lleol, gyda llawer o storïau diddorol o gaban y chwarel. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys M.C. Brynrefail. Bu'r angladd ar Ionawr 6, gyda'r Parch Trefor Lewis, Disgwylfa yn gwasanaethu yn y cartref a'r amlosgfa. Mae ein cydymdeimlad dwys gyda'r weddw, Mrs Katie Pritchard a'r teulu oll. Dymunant ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt. Rhoddwyd y blodau ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis ac ym Mhlas Gwilym, Penygroes.

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyr mis Rhagfyr - 3ydd - 1. Eirlys Williams, 2. Derek Davies, 3. Eleanor Williams; 10fed: 1. Shirley Roberts, 2. Maldwyn Jones, 3. Sue Jones; 17eg - 1. O.J. Williams, 2. Betty Owen (Tros yr Afon), 3. Betty Owen (Llwyn Coed Bach); 25ain - 1. Glyn Owen, 2. Margaret Jones, 3. Eirlys Williams.

Dalier sylw - Bydd cyfarfod blynyddol y clwb i'w gynnal yn Nhŷ Glas am 8 o'r gloch.

GWASANAETH DATHLU'R NADOLIG - Er i'r gwasanaeth gael ei ohirio oherwydd y tywydd a diffyg trydan hyd Ionawr 10, ni chollwyd dim ar naws a neges y gwasanaeth, gyda phlant ac oedolion yn cymryd rhan. Cafwyd ddarlenniadau 'Y Ffordd Orau' gan ddsbarth Miss A.M.

Williams, ac adroddiad 'Ei Seren Ef' gan Joanne, Maria ac Eira Wyn Evans. Cafwyd gweddi gan Nerys Williams a charolau gan barti'r plant ieuengaf. Ymysg yr oedolion cafwyd cyflwyniadau llafar, - 'Y Goeden Nadolig' gan Jennie Roberts a detholiad o Efengyl Luc gan Deiniol a Heulwen Evans. Cafwyd cyflwyniad ar y thema 'Gwlad Pŵyl' gan deulu Min y Nant, Cwm-y-glo. Cafwyd carol a gweddi gan Meirir, Alwen a Caron Jones, ac adroddiad 'Emaniwel' gan Jacqueline, Glenda a Paula Walters. Cafwyd deuawd o'r garol 'Mae'r Nos yn Fwyn' gan Heulwen Evans a Lowri P. Roberts. Fe gydganwyd carolau poblogaidd gan y gynulleidfa gan orffen gyda 'O Deuwch Ffyddloniaid'. Fe ddiolchwyd i'r rhai a fu'n cymryd rhan, ac i'r rhai fu'n dysgu'r plant gan Mr G.W. Williams.



Llun Trip Ysgol Sul Brynrefail i Landudno, tua 60 mlynedd yn ôl. Yn ôl y Parch Herbert Thomas, Llannor, a anfonodd y llun i'r Eco, enwau rhai o'r bobl yn y llun yw: Griffith Madog Ellis, Penrallt; ei frawd Wil Edwin; Olwen Roberts, Yr Allt; a Jim Davies, Ffridd Goch. Oes rhywun yn gallu enwi'r lleill?

CHWAREL DINORWIG - BANC MOSES



Pwy ydy'r chwarelwyr yma ac ym mha flwyddyn y tynnwyd y llun? Gwybodaeth os gwelwch yn dda. Diolch i Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, Cwm y Glo am anfon y llun.

CWM-Y-GLO

MERCHED Y WAWR - Nos Iau, Rhagfyr 17, cafwyd noson hwyliog i ddathlu'r Nadolig dan arweiniad Mrs Gwyneth Chick ac yng nghwmni cyfeillion Capel Mawr Llanrug, a gwesteion eraill. Yn gyntaf cafwyd gwledd wedi ei pharatoi gan Mrs Watkins gyda chymorth Mrs M. Roberts. Yna cyngerdd dan arweiniad y Parch W.O. Roberts, gydag eitemau o adrodd a chanu gan bartion merched Llanrug, adroddiad gan Mr Gwilym Rees Parry a chaneuon a chyfeiliant telyn gan Mr Ken Morris. Talwyd diolchiadau gan Mrs Verna Jones.

GWAELEDD - Mae Mrs P. Chick,

Mairlys, gartref bellach ar ôl treulio cyfnod y Nadolig yn Ysbyty Môn ac Arfon. Ein dymuniadau gorau iddi am adferiad buan.

Cylles y Ffôn

Yn Glaf o Serch

Elen Rhys
60c

Mae Meg Rhydderch yn mynd i hyfforddi fel meddyg ym mhentref hudolus Porthmain yn sir Benfro, ac yno mae'n cyfarfod ag Owen, brawd golygu Doctor Dafydd Elis.

CYSTADLEUAETH
YN GLAF O SERCH

Bydd GWOBRAU o £30, £20 a £10 yn y drefn yna i'r atebion cywir cyntaf a agorir ar Fawrth 31, 1982.

1. Pa gwestiwn a fu bron yn achos i rywun ohergylt y gwyd?
2. Rhwng enw 'yr un' roedd parb yn sylw am?
3. Enw pa lôn oedd yn addas i'r lle?

Rhowch rif y lodaen i bob atebiad.
Eich enw a'ch cyfeiriad yn lawr ar bob atebiad.
Bydd yr atebion cywir i'w gweld yn rhifyn mis Mai o PAIS.
Mae'r atebion i gyd yn y gyfrol **YN GLAF O SERCH**.

Ni chaniateir i weithwyr Cyhoeddiadau Mei na'u teuluoedd gystadlu.
Yr atebion i'w hantol i
Cystadleuaeth 'Yn Glaf o Serch',
40 Stryd y Wyddfa, Penygroes,
Caernarfon, Gwynedd.

PWT O GÂN

MARCHLYN

Ar dir Elidir lydan - yn eigion
Unigedd mae'i lwyfan;
A rhydd ei glws ddyfroedd glân
Iach win o lannerch anian.

Morris D. Jones
(Glan Caledffrwd)

**I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...**

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLEN

Ffôn:
LLANBERIS 545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

WAUNFAWR

YR YSGOL – Wythnos hynod o brysur oedd wythnos ola'r tymor yn yr ysgol.

Dechreuodd y gweithgareddau ar y dydd Mawrth, pan gafwyd Diwrnod Agored pryd y rhoddwyd cyfle i'r rhieni ymweld â'r ysgol i weld a thrafod gwaith eu plant gyda'r athrawon. Ddydd Mercher eisteddodd y plant i ginio Nadolig arbennig wedi ei baratoi gan staff y gegin. Bnawn lau, rhoddwyd cyngerdd i'w rhieni gan y ddau ddosbarth babanod. Yn ystod dydd Gwener, cafodd y Babanod eu Parti Nadolig pryd yr ymwelodd Siôn Corn gydag anrheg i bob un ohonynt. Nos Wener yr oedd Côr Plant yr Ysgol dan ei arweinydd Mrs E. Eames yn diddanu'r gynulleidfa mewn Noson Wasael tuag at Gronfa Ymchwil Arennau yng Nghaernarfon. Nos Lun cafwyd Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Sant Iwan gan blant yr Adran lau wedi eu hyfforddi gan Mrs Eames. Ar y prynhawn olaf o'r tymor aeth plant yr Adran lau i Theatr Gwynedd, Bangor, i weld y pantomeim Guto Nyth Cawen.

Dymuna'r prifathro a'r staff ddiolch yn gynnes iawn i'r rhieni a chyfeillion am gyfrannu mor hael tuag at gostau'r Parti Nadolig a'r Pantomeim.

YR YSGOL FEITHRIN – Bydd yr Ysgol Feithrin yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeg oed ar Fawrth 1 ac i dathlu mae yna noson wedi ei threfnu yng ngwesty'r Gwynedd, Llanberis nos Wener, Chwefror 2 6ac fe fydd John Ogwen a Maureen Rhys yno i'n diddori. Croeso cynnes i bawb. Cyw iâr neu scampi £3.50 (yn cynnwys cost y bws). Enwau i Heulwen Jones, Cynant Lodge neu Llinos Cadwalader, 3 Glyn Afon erbyn Chwefror 19.

Bydd y plant bach yn cael dathlu hefyd efo te Parti yn yr Ysgol Feithrin ar Fawrth 1.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi helpu a chefnogi'r ysgol ar hyd y blynyddoedd.

YR AELWYD A'R YSGOL FEITHRIN – Bydd theatr Bara Caws yn ymweld â Neuadd yr Eglwys nos Fawrth, Chwefror 9 i berfformio 'Os ma bobol'. 80c i oedolion, 50c i bensiynwyr, a phlant i dalu 30c wrth y drws.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod Ionawr o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos Iau Ionawr 7. Croesawodd y llywydd, Mrs C.A. Jones yr aelodau i'r cyfarfod a dymunodd flwyddyn newydd dda iddynt. Dymunodd adferiad buan i'r aelodau oedd yn methu â bod yn bresennol oherwydd gwaeledd. Croesawodd Mrs Denton fel ymwelydd i'r cyfarfod.

Darllenwyd cofnodion y mis diwethaf a'r llythyr misol. Mrs Morfa Evans fydd yn cynrychioli Sefydliad y Waunfawr yn y Cyfarfod Blynyddol, sydd i'w gynnal yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn, Ionawr 30. Cafwyd sgwrs ddiddorol ar ei hymweliad i Batagonia gan Miss M. Richards. Diolchodd Mrs B. Rowlands iddi. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, Chwefror 4, pan fydd Mr Rob Jones YH yn rhoi sgwrs ar "Ein Hawliau yn y Gymdeithas".

Y GANOLFAN – Cafwyd noson ddifur eithriadol pan aed o gwmpas y pentref yn ddiweddar i ganu carolau. Gwnaed elw o ddeugain punt. Mae'r pwyllgor ariannol yn dymuno cyfleu eu diolch i bawb o'r pentref a gyfrannodd, ac yn arbennig i Mr H. Roberts o Rosgoch am fenthycu ei fws deulawr. Gorffennwyd y noson gydag arddeliad pan ganiatawyd i'r côr ganu ar lwyfan Bryneirion, lle y cafwyd croeso brwd.

Mae swyddogion Cyngor Arfon wedi cytuno i'r cynlluniau terfynol ac

ni fydd yn hir cyn y meddir cychwyn ar osod sylfeini'r adeilad.

MERCHED Y WAWR – Cyn y Nadolig, cafwyd noson hwyliog iawn yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug. Ar ôl swpera yn dda trefnodd Dafydd Iwan, ein gŵr gwadd Dalwrn y Beirdd a phawb ohonom yn rhigymu – yn feirdd i gyd!

Anrhegwyd pob un, a diweddwyd y noson efo cân gan Dafydd. Noson o goluro a phrydferthu fydd y tro nesaf.

Blwyddyn newydd dda i'r aelodau i gyd.

JANE GRACE PARRY
gynt o Hafod y Rhug Isaf
1880-1981

Flwyddyn yn ôl yr oeddem yn ei llongyfarch ar gyrraedd ei chant oed. Ond ar Ragfyr 17, dydd ei phen-blwydd yn gant ac un yr oeddem yn ei hangladd yng Nghapel Croesywaun a mynwent Caeathro. Gwraig hoffus a deallus a fu'n byw yn Hafod y Rhug am dros drigain mlynedd. O Bant Hywel, Llandegfan y daeth y teulu i Blas Glynafon, ac i'r Hafod yr aeth hi a'i gŵr Griffith Parry, Glan yr Afon Bach ar ôl priodi, ac yno y magwyd Gwyneth, Meirion a Rhiannon. Fe ddaeth cynnod o gysylltiadau diddorol i ben efo hi. John Elias o Fôn a fedyddiodd ei thad. I'r Hafod y deuai Hywel Harris i gynnal seiadau, pan ar ei deithiau yng Ngwynedd, efo Ifan Dafydd, hen hen daid Griffith Parry. Wyr i Ifan Dafydd oedd y John Evans a aeth i America yn 1792 i chwilio am yr Indiaid gwyn eu crwyn. Robert Parry Glan yr Afon bach, tad Griffith Parry oedd y Sanitary Inspector a gadwodd ddyddiadur rhyfeddol o hanes bywyd ac iechyd yr ardal yma, ac yn ystod ei oruchwyliaeth y codwyd Ysbyty Pen Cefn ar dir Glan yr Afon bach.

Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn Aberaeron, Taunton a Florida.

CRONFA'R GANOLFAN – Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr: 1 (£40), rhif 281, Sion Prys Jones, Penrhos. 2 (£25), rhif 70, Humphrey Roberts, Rhosgoch; 3. (£10), rhif 285, Grace Williams, 1 Dolerddi.

Yn ogystal talwyd pedair gwobr ychwanegol o £10 y mis yma i: rhif 261, Huw Roberts, Surgery; 191, Marian Jones, 12 Dolerddi; 142, Mark Jones, 7 Aelybryn; 93, Cenin Griffith, Llys Gwyrfa.

Enillwyr mis Ionawr (tynnwyd yr enwau buddugol yng Nghlwb Gwyrfa ar Ionawr 21). 1. (£40): A. ac M. Denton, Nynsoedd. 2. (£25): Meirion Wyn Jones, Crud yr Awel. 3. (£10): Nancy Roberts, Awelfryn.

Fe dynnir y gwobrau nesaf yng nghyfarfod o Glwb y Mamau, Chwefror 11.

PLYGU'R ECO – Diolch i gynrychiolwyr y cymdeithasau a'r mudiadau a fu'n helpu plygu'r Eco y llynedd. Hyderwn y cawn eu cymorth eto ym 1982, fel a ganlyn: Ionawr: Yr Urdd; Chwefror: Sefydliad y Merched; Mawrth: Dosbarth y Dysgwyr; Ebrill: Aelwyd yr Urdd; Mai: Pwyllgor y Grŵp Chwarae; Mehefin: Plaid Cymru; Gorffennaf: Clwb Gwyrfa; Awst: –; Medi: Merched y Wawr; Hydref: Pwyllgor yr Ysgol Feithrin; Tachwedd: Y Gymdeithas Undebol; Rhagfyr: Pwyllgor y Neuadd.

Cysylltwch â John Huws Roberts, Waunfawr 545, os nad yw'n gyfleus (Cofiwch mai ar ddiwedd y mis blaenorol y daw yr Eco allan).

LLONGYFARCHIADAU i Eira Wyn Roberts, Llys Helen, ar ei phen-blwydd yn 21 oed.

I Cennin Griffith, ar ei briodas â Frances Gilroy o Gaernarfon.

I Sian Williams, Coed Gwydryn, ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

I Moira a Pat, Siop Chips, ar enedigaeth merch fach.

I Mr a Mrs Glyn Williams, Plas Glyn Afon, ar ddathlu eu priodas aur.

I Arwel Hughes, Plas Bod Hyfryd, ar ei briodas yn Seland Newydd. Bu ei rieni, Mr a Mrs Wil Hughes, yno i'r briodas.

CYDYMDEIMLWN â Miss Kate Humphreys, Bro Waun, ar golli chwaer; a Mrs Mai Roberts, Bod Afon, a Mrs Evans, Glasfryn, ar golli brawd, sef Mr W.D. Jones.

YN YR YSBYTY – Anfonwn ein cofion am wellhad buan i Miss Pritchard, Tref Eilian, sydd yn Ysbyty Eryri ar ôl damwain yn ei chartref. Hefyd i Eilian Jones, Bron Eifion, sydd yn yr ysbyty yn Llundain ar ôl torri ei droed. Ein cofion hefyd at Mrs K.M. Jones, Gorwel, sydd yn yr ysbyty yn Ninbych.

ADREF O'R YSBYTY – Gobeithiwn fod Miss Rosa Hughes, Tref Eilian, yn gwella yn nhŷ ei nith yng Nghaernarfon, ar ôl amser yn yr ysbyty. Hefyd Mrs Myfanwy Griffith, Eirianallt a Mrs Corinn Twigg, Pen Rhiw, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn ag Aled Taylor, Dôl Erddi, ar ôl damwain anffortunos iawn i'w goes. Da gennym ddeall fod Mrs Evan Hughes, Bro Waun, yn gwella ar ôl ei thriniaeth yn yr ysbyty.

YR URDD – Mae'r plant wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod. Ar nos Lun maent yn cyfarfod i ymarfer y côr, ar nos Fawrth i ymarfer y parti recorders, a chôr adrodd ar nos Iau.

Ar Chwefror 10, byddant yn cael cyfle i fynd i'r pwll nofio newydd sydd yng Nghaernarfon. Fe fydd y pwyllgor yn falch o dderbyn cymorth gan y rhieni i gludo'r plant yn eu ceir i'r pwll.

BEDYDD – Ddydd Sul, Ionawr 10, am 4 o'r gloch y pnawn, yn Eglwys Sant Iwan, bedyddiwyd Rhian Wyn, merch fach Mr a Mrs Elfyn Griffith, Melwyn, 6 Stâd Tŷ Hen, gan y Ficer, y Parch E. Trefor Jones.

Ffug Eisteddfod yr Eco
Gobeithio bod pawb yn y pentref
yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod –
sef uchafbwynt y gaeaf ym Mro'r
Eco.

CWIS I DDISGYBLION YSGOL GYNRADD WAUNFAWR!



Edrychwch yn ofalus ar goesau siapus aelodau'r tîm yn y llun. Ydych chi'n gweld par o goesau sydd yn gyfarwydd i chi?

CEUNANT

MARWOLAETH – Yn ysbyty Môn ac Arfon, ar Ragfyr 6 bu farw Mrs Elizabeth Thomas, Arwelfa yn 85 oed. Rhagflaenwyd Mrs Thomas gan ei phriod David John Thomas a oedd yn enedigol o Lanberis. Bu Mrs Thomas yn ffyddlon ac yn weithgar yng nghapel Ceunant ar hyd ei hoes. Cafwyd gwasanaeth angladdol o dan ofal y gweinidog y Parch W.O. Roberts ar Ragfyr 9 yng Nghapel Ceunant ac yna ym mynwent Llanrug. Cydymdeimlir â'i brawd a'i chwaer yng nghyfraith Mr a Mrs Evan Parry, Bodafon a'r teulu oll.

DIOLCH – Dymuna teulu Mrs Thomas, Arwelfa ddiolch i feddygon Waunfawr, y Parch W.O. Roberts, Mr

Selwyn Morris, Trefnydd Angladdau, ffrindiau a chymdogion am bob cymorth a chydymdeimlad a gafwyd yn eu profedigaeth.

YN GWELLA – Croeso adre o'r ysbyty i Miss Mary Pierce, Bryn Glas. Hefyd Caroline Jones, Tanhafodlas a gafodd driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Da deall eu bod yn gwella.

DYSGWYR ARFON
GYRFA CHWILOD A PHANED
yn yr Aelwyd, Caernarfon
Nos Fawrth, Chwefror 23 am 7 o'r
gloch
Mynediad 50c – dan nawdd
Pwyllgor Dysgwyr Merched y
Wawr, Arfon

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Penylllyn 236.



Teyrnged i'r ddiweddar Mrs BERYL LYNCH

Carrog a Phenisa'rwaun

gan y Prifardd Gwilym R. Jones, Dinbych
(o'r Faner, Ionawr 8, 1982)

(Mae'r Eco'n ddiolchgar iawn i Mr Gwilym R. Jones ac i Mrs Jennie Eirian Davies, Golygydd y Faner am eu caniatâd i gyhoeddi'r deyrnged)

Nid yn aml y gellir haeru bod hon-a-hon yn fam o Gymraes ddelfrydol, ond gellir bod mor hy â chyhoeddi mai un o'r benywod prin hynny oedd Beryl Noel Lynch, Disgwylfa, Carrog, priod y Parchedig Evan Lynch, a mam i bedwar o Gymry y gall ein cenedl fod yn falch ohonynt.

Fel aelod o'm Dosbarth WEA yng Ngharrog y deuthum i i adnabod y wraig ryfeddol hon gyntaf - ei hadnabod mewn dyfnder: yr oeddwn yn gydnabyddus â hi cyn hynny fel eisteddfodreg o'r iawn ryw ac fel Cenedlaetholreg a wynebodd lys a gwawd ei chyd-Gymry am ei bod yn beiddio sefyll dros y Pethe yn gwbl ddigyfaddawd.

Byddai'n cyfrannu'n helaeth at y trafodaethau yn y dosbarth - ac eang oedd ei gwybodaeth am lenyddiaeth ei chenedl a'i chariad tuag ati. Yr oedd ganddi farn aeddfed ar faterion o bwys i'n cenedl ni, ac nid oedd arni ofn mynegi'r farn honno, digied a ddigiaf.

Gwerthfawr fu ei chyfraniad i'n dosbarth fel darllenreg storïau a cherddi: meddai ddawn fawr yn y cyfeiriad hwnnw ac yr oedd ei Harfong yn bersain, yn enwedig pan ddarllenai un o storïau Kate Roberts.

Onid yr ysgytiad hyfryd a gawsom fel dosbarth oedd y darlleniad o ddwy o'i storïau hi ei hun yn nhafodiaith Penisa'rwaun. Dangosodd y storïau hynny fod gennym yn ein plith artist o storïwraig â'i hiwmor yn gwreichioni! Caffaeliad amheuthun iawn oedd Beryl Lynch mewn cymdeithas o'r fath!

Un noson, yr oedd y gwynt yn aeafol iawn a hinsawdd yr ystafell lle cyfarfyddem yn bur isel. A dyma Beryl yn codi ac yn dweud: "Does dim rheswm mewn peth fel hyn. Dyma ni yn gorfod diodda toriada Thatcher ar y pŵer trydan, ac y mae hi fel rhewgell yma. Fedrwn ni ddim diodda peth fel hyn." A dyna hi, a oedd yn athrawes yn yr ysgol lle cyfarfyddem, yn codi ac yn myned i ryw ystafell yn y cefn a thro'i'r pŵer 'ymlaen'. A chawsom noson gynnes gysurus ar ôl hynny!

Erys un darlun arall o Beryl Lynch yn eirias yn fy nghof, sef ei gweled yn fy nghroesawu i'w haelwyd, a hithau yng ngafael yr afiechyd didrugaredd a oedd wedi cydio ynddi ac 'yn methu â llyncu llymaid', ac yn rhoi imi gwpaned o de poeth a brechdanau bara brith. Gwyddwn fod ein gelyn olaf wedi cydio ynddi, ond mynnai ofalu am gysur ei thipyn tiwtor ar noson ddigon annymunol. Un felna oedd Beryl Lynch.

Meddai ddewrder digyffelyb. Ebe hi wrthyf: "Gobeithio y caf aros yn yr ysbyty nes bod y drwg wedi'i symud: os caf i ddod adra'n fuan fe fydd hynny'n arwydd drwg!" Dim ond enaid dewr a allai lefaru geiriau fel y rhain.

Nid oedd amheuaeth ynghylch ei chariad at ei theulu a'i chymdeithas (yng Ngharrog) a'i chenedl; yn wir, credem y gallai hi aberthu ei bywyd dros y rhain.

Nid ofnai ddweud y caswir am bobl a phethau, ac oblegid hynny, dichon fod rhai pobl na allent gyfathrebu'n rhwydd â hi - ond ar bwy roedd y bai am hynny? Fel gwraig ddiogel yn ei phethau a ffyddlon i'w hegwyddorion y carwn i gofio amdani, a dyna farn y mwyafrif o'i chydabod a'i chyfeillion amdani hi. Addas, rhywfodd, oedd claddu Beryl Noel Lynch dan eira, ond gadawodd lu o galonnau trist ar ei hôl.

Hi adodd greulon adwy - ar ei hôl,
O! mor wych fu'i thramwy!
O'i chariad, â'i gwlad dan glwy
Nerthol oedd ei chynhorthwy.

Ei thalent roes i'w theulu - a'i chenedl
A'i chwynion, a'u caru;
Am ei grym di-ymgrymu
Cofiw'n ar y dwithwn du.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

£5.00: Mr a Mrs Tom Gwyn Pritchard, Bronallt, Nant Peris.

£1.00: Mr a Mrs John Williams, 3 Cynfi Terrace

50c: Mrs Gwen Griffiths, Deiniolen.

£2.00 - Mrs G.M. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug.

£2.00: Mrs M. Jones, Queensferry

50c: Mrs M.J. Roberts, Tai Cochion, Penisa'rwaun.

£2.00 - Mr a Mrs H. Jones, Tŷ Uchaf, Ceunant.

£2.00 - Di-enw.

PENISARWAUN

LLONGYFARCHWN Mr a Mrs Alwyn Williams, Cae Bythod Mawr ar enedigaeth mab, Elgan Price, brawd i Rhian a Dylan.

Hefyd Mr a Mrs R. Turner, Tyddyn Difyr, hwythau wedi cael mab, Christopher Dewi, brawd i Lawrence, Andrew, Owen a Gwenllian.

DYMUNIADAU DA i Cai Larsen ar achlysur ei briodas yng Nghaerdydd yn ddiweddar, ac i Margaret Jane Adlan ar ei phriodas hithau.

LLONGYFARCHIADAU - Roedd Kenneth Williams, Llwyn Derw yn un ar hugain oed y mis hwn. Mae Ken yn y Llu Awyr. Dymuniadau da iddo yn y dyfodol.

CWYNO - Mae llawer o'r plant wedi bod yn cwyno gyda gwahanol afiechydon. Bu dau ohonynt yn yr ysbyty, sef Llion Roberts a Benjamin Rowlands. Da yw clywed fod y ddau yn gwellu.

Daeth Mr T.E. Davies, 1 Tai

Newyddion o'r ysbyty hefyd, ar ôl bod o dan lawfeddyginiaeth.

DIOLCH - Carai Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion, ddiolch o galon i'w chymdogion a'r teulu am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod yr eira.

CAPEL BOZRA - Cydymdeimlodd y Parch. Erfyl Blainey â Mrs Mary Jones o Queensferry a'r teulu, ar farwolaeth ei mab yn 52 oed cyn y Nadolig a chydymdeimlodd hefyd â Miss Mair Ffoulkes, 3 Bryn Hyfryd ar ôl colli cefnder.

LLONGYFARCHIADAU i Carys Williams, Trem Cynfi ar ei llwyddiant yn yr arholiad yng Ngholeg Technegol Bangor, ac i'w brawd, Gwynfryn am ei llwyddiant yn y byd "codi pwysau". Gwelir llun Gwynfryn ar un o dudalennau eraill yr Eco.

CROESO i Mr a Mrs Emlyn Jones a'r mab, Hendre Newydd, Waun.



Yr olygfa ar ddiwedd Pasiant Nadolig Plant Ysgol Gynradd Tan-y-coed.

EGLWYS SANTES HELEN - Yr ydym yn hynod o ddiolchgar i Mr O.C. Roberts am yr adroddiad hwn ar un o uchafbwyntiau Gŵyl y Nadolig yn Eglwys Santes Helen. Ymddangosodd yr adroddiad yng nghylchgrawn yr Eglwys.

"Hynod ryfedd oedd bod yn yr Eglwys nos Sul, Rhagfyr 20 a hynny oherwydd mai goleuni canhwyllau oedd yr unig oleuni, gan fod y cyflenwad trydan wedi ei dorri. Ond ni tharfodd hynny ddim ar y wledd a gawsom gan blant yr Ysgol Sul yn eu Gwasanaeth ar lafar a chân i glodfori'r Geni. Hyfryd iawn oedd eu gweld wedi ymwisgo'n arbennig ar gyfer yr achlysur a chael gwrando arnynt yn canu'r carolau.

Er bod yr hin yn oer, nid oeddem yn teimlo'r oerni o gwbl, oherwydd 'roedd gwaith gwefreiddiol y plant yn ein cynhesu i gyd. Diolch i'r athrawon am eu hyfforddi - Mrs Mary Davies, Y Warden; Mrs Ann Paterson a'r ddwy athrawes ieuanc, Heather a Karen Jones. Diolch hefyd i'r Parch D. Gwynfor Williams am arwain, i'r organydd, Mr Bryngwyn Griffiths, i Mr Dave Paterson am chwythu'r organ oherwydd y diffyg trydan, ac i bawb a ddaeth i'r gwasanaeth i gefnogi ymdrech ragorol y plant a gymerodd ran.

Daliwch ati i ddod i'r Ysgol Sul.

Cydymdeimlwn fel eglwys â theulu Pensarn yn eu profedigaeth. Bu farw Mr Ted Pritchard, brawd ieuengaf Mr John Pritchard yn ddiweddar. 'Roedd yn byw yn Surrey. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Mrs T.W. Griffiths, 16 Bryntirion yn ei phrofedigaeth o golli perthynas iddi a oedd yn byw ym Môn. Hefyd i Mrs J.M. Jones, 4 Llys-y-Gwynt sydd wedi colli ei brawd yng nghyfraith a oedd yn byw yn Ninorwig, ac i Miss Mair Foulks, 3 Brynhyfryd, hithau wedi colli cefnder a oedd yn byw yn Queensferry. Ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn newydd fe gollodd Mrs

Peter Williams, Llwyn-derw, ei thad a oedd yn byw ym Mrynrefail.

Estynnwn ein diolchiadau i'r Parch Philip Roderick, Curad y Felinheli, am wasanaethu'r offeren Noswyl y Nadolig.

Cafodd plany yr Ysgol Sul eu te parti nos Fercher, Rhagfyr 23 yn Neuadd yr Eglwys. Parti undebol oedd hwn. Dymuna'r athrawon ddiolch i'r rhieni a'r ffrindiau a fu mor garedig â rhoi rhoddion i'r plant, ac am bob cymorth gyda'r trefniadau er sicrhau parti llwyddiannus dros ben. Diolch i Santa am ddod i ymweld â ni."

DIOLCH - Dymuna Mrs Mary Jones a'r teulu (gynt o Tŷ Newydd, Penisa'rwaun), ond yn awr yn byw yn Queensferry ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu colled fawr o golli Gwilym mor sydyn ac yntau ond yn ddeuddeg a deugain oed. Mae'r arian a gasglwyd, sef yn agos i £200 yn mynd tuag at ymchwil y Cancr i Ysbyty Clatterbridge, Lerpwl. Diolch yn fawr i bawb am eu rhoddion.

YSGOL TAN-Y-COED

CYNGERDD NADOLIG - Daeth tyrfa dda o rieni a chyfeillion i fwynhau'r ddau berfformiad o Stori'r Nadolig a gynhaliwyd cyn yr Ŵyl y llynedd. Diolchir iddynt am eu cefnogaeth arferol.

PANTOMEIM - Aethpwyd â dros hanner cant o blant yr ysgol i Theatr Gwynedd i weld pantomeim blynyddol Cwmni Theatr Cymru. Gobeithir fod y rhai dan bump yn ogystal â'r rhai dan gant wedi mwynhau'r profiad.

GLYNLLIFON - Treuliodd pedwar o blant yr Ysgol, sef Catrin Evans, Sioned Roberts, Steven Gayther a Dylan Rhys Jones, wythnos gyntaf y

(parhad ar dud. 19)

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Dyma ein rhaglen o adloniant am y mis, wedi ei dewis yn ofalus i sicrhau noson allan wych.

Gofynnwch i'ch ffrindiau sydd wedi ymweld â ni eisoes – maent yn dod yn ôl dro ar ôl tro – arwydd da eu bod wedi eu bodloni.

Nos Sadwrn, 30 Ionawr – 'Citizen's Band' a Disco – Mynediad £1.25

Nos Fercher, 2 Chwefror – Disco – mynediad 75c

Nos Wener, 5 Chwefror – Noson Grwpiau Cymraeg

Nos Sadwrn, 6 Chwefror – Grŵp 'Tocatta' a Disco – Mynediad £1.25

Nos Fercher, 10 Chwefror – Disco – Mynediad 75c

Nos Iau, 11 Chwefror – Noson 'Country & Western' gyda 'Bryn Chamberlain' – Mynediad £1.50

Nos Wener, 12 Chwefror – Disco – Mynediad 75c

Nos Sadwrn, 13 Chwefror – Grŵp 'Nova' a Disco – Mynediad £1.25

Nos Fercher, 17 Chwefror – Disco – Mynediad 75c

Nos Wener, 19 Chwefror – Noson Grwpiau Cymraeg

Nos Sadwrn, 20 Chwefror – Grŵp 'Sound and Vision' a Disco – Mynediad £1.25

Nos Fercher, 24 Chwefror – Disco – Mynediad 75c

Nos Iau, 25 Chwefror – Noson 'Country & Western' gyda 'Iona ac Andy' ac eraill – Mynediad £1.50

Nos Wener, Chwefror 26 – ail ymddangosiad y grŵp 'Slimline' a Disco – Mynediad £1.25

Nos Sadwrn, 27 Chwefror – Grŵp 'Amber Flair' a Disco – Mynediad £1.25

Dalier sylw:

Bar ar agor yn hwyr bob nos
Dim mynediad ar ôl 9.30 p.m.
Dylid archebu eich tocynnau ymlaen llaw i sicrhau mynediad – yn arbennig nos Sadwrn.

DYDDIADUR

CHWEFROR

1, Llun: DEINIOLEN, Cyfarfod Blynyddol y Seindorf yn Ystafell y Seindorf am 7.00. Sefydliad y Merched – Ffilm ar Batagonia gan Mrs Richards, Caernarfon. LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

2, Mawrth: LLANRUG, Y Gymdeithas Undebol – Brethyn Cartref.

3, Mercher: LLANRUG, Y Cyngor Eglwys – Seiat dan arweiniad Miss Megan Humphreys. Mater: Y Cristion a'r Trydydd Byd (yng Nghapel Mawr).

4, Iau: DINORWIG, Y Gymdeithas Undebol – Darlith gan Mr Emyr Jones, Caernarfon ar 'Fwyd y Chwarelwr'. Yn y Ganolfan. WAUNFAWR: Sefydliad y Merched – sgwrs gan Mr Rob Jones YH. 'Ein Hawliau yn y Gymdeithas'.

5, Gwener: LLANBERIS, Te yr Henoed. YR ARDAL. Fflug-Eisteddfod Bro'r Eco yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

8, Llun: DEINIOLEN: Y Cyngor Eglwys. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

9, Mawrth: WAUNFAWR, Theatr Bara Caws yn perfformio 'Oes 'ma Bobol?' yn Neuadd yr Eglwys. LLANRUG, Merched y Wawr – Arddangosfa coginio gan Mrs Ruth Davies.

10, Mercher: DEINIOLEN: Perfformiad gan Theatr Bara Caws. LLANRUG: Noson Goffi yng Nghanolfan Hafan Elan am 7 o'r gloch. WAUNFAWR: Aelodau'r Urdd yn ymweld â'r Pwll Nofio yng Nghaernarfon. BETHEL: Merched y Wawr – sgwrs ar arddio gan Mr Robin Williams, Coleg Glynllifon. YR ARDAL: Cyfarfod yr Ymgych

Diarfogi Niwcliar yn y Ganolfan, Llanberis am 7.00.

11, Iau: LLANRUG, Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr – 'Cymeriadau Hynod'.

15, Llun: LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

16, Mawrth: LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol.

17, Mercher: CWM YGLO: Merched y Wawr – Brethyn Cartref.

18, Iau: DINORWIG, Y Gymdeithas Undebol – Noson gyda Mr Richard Hughes, Y Co Bach. (yn y Ganolfan) LLANRUG, Theatr Bara Caws.

19, Gwener: LLANBERIS, Te yr Henoed.

22, Llun: DEINIOLEN, Y Gymdeithas Lenyddol Undebol. LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol yn ymweld â Chymdeithas y Waunfawr. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

25, Iau: LLANRUG, Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr – Dadl 'Mai'r Felitith fwyaf i'r Gymdeithas heddiw yw'r Teledu'. LLANBERIS, Sefydliad y Merched. WAUNFAWR, Merched y Wawr, Noson o Goluro a Phrydferthu.

26, Gwener: WAUNFAWR, Noson o ddathlu pen-blwydd yr Ysgol Feithrin yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.


27, Sadwrn: LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr – Swper a Chyngerdd Gŵyl Ddewi.

Penisa'rwaun – parhad

tymor yng Ngholeg Glynllifon, ar gwrs Cymraeg. Hyderir iddynt elwa o'r dysgu a'r cymdeithasu.

NOFIO – Erbyn hyn, mae gwersi nofio ar gwricwlwm yr ysgol, na, nid yn Afon Stabla' nac ym Mhenllyn, ond mewn dŵr cynnes a than do yng Nghanolfan Hamdden Arfon sydd newydd ei hagar.

CROESAIR CHWEFROR



AR DRAWS

1. Fflat (7)
5. Ticed (5)
8. Anffawd (5)
9. Gorthrymu (7)
10. Llyfr ola'r Beibl (9)
12. Y pedair awr ar hugain (3)
13. Menai (6)
14. Amseroedd (6)
17. "Melys moes . . ." (3)
18. Golwg Anna yn dangos diffyg hyder (9)
20. Creadur (7)
21. Mae gwynt eu traed nhw'n oer iawn (5)
23. "Hel a . . . diadell Yw camp hwn yn y cwm pell".
24. Ymlusgiaid.

I LAWR:

1. Rhaid cael gwedd i droi'n goch (5)
2. Er iddo ddod yn agos, nid Ali sy'n

ennill (3)

3. Cymhennu (7)
4. Doniol (6)
5. Gorchymyn i un i ddod (5)
6. Yn disgrifio'r gallu i wneud rhywbeth o ddim (9)
7. Mae rhai coffa ym mhentrefi'r wlad (7)
11. Cwtogiad (9)
13. Defnyddiol i wybod cyfeiriad (7)
15. Dydy Mog yn gwneud y gorau o bethau (7)
16. Portread (6)
18. Sâl (5)
19. Heb fod o'r blaen (5)
22. Rhwbio saim ar rywbeth (3)

Cyfrif y llythrennau yma fel un lythyren: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu. Anfoner y cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

CHWARAEON

RHEDEG YN EI GWAED

Yn llyfr lloffion Rhian Lewis o Ddeiniolen mae nifer helaeth o luniau, adroddiadau papur newydd a thystigrifau am redeg. Yn ei chartref yn y Stryd Fawr mae tlysau a chwpanau'n sgleinio – gwobrau unwaith eto am redeg. Ond nid rhedeg trac sydd wedi denu'r holl wobrau hyn, ond rhedeg traws-gwlad a rhedeg rasmus-mynydd ('fell races'); ac mae'n debyg mai sefydlu Clwb Rhedwyr Eryri yn 1977 o ganlyniad i llwyddiant Ras yr Wyddfa a fu'n gyfrifol am y diddordeb a'r llwyddiant hwn ym mywyd Rhian.

Yn Ras yr Wyddfa y llynedd y daeth ei llwyddiant cyntaf, pan enillodd yn yr Adran Ieuengaf. Eleni, daeth yn gyntaf unwaith eto, gan sefydlu record newydd yn ei dosbarth. Ond er mai Ras yr Wyddfa o bosibl yw pinac y flwyddyn rasio iddi, mae amryw o gystadlaethau eraill i'w chadw'n brysur – a llawer ohonynt o fewn ardal Eryri, gan gynnwys Ras Fynydd Gallt y Glyn i gopa Moel y Cynghorion; Ras Fynydd Penmaenmawr a Ras Fynydd Llyn Elsi yng Nghoedwig Gwydir. Ym mhob un o'r rasmus hyn daeth Rhian yn gyntaf yn ei dosbarth.

Yn ogystal â'r rasmus hyn, bu

Rhian yn cystadlu mewn rasmus traws-gwlad a rasmus hir hefyd. Hi yw pencampferch rhedeg traws-gwlad Gwynedd i rai dan 12 oed, a daeth yn gyntaf yn ei dosbarth yn y Ras Hanner Marathon a drefnwyd ddeufis yn ôl gan Ford Gron Caernarfon.

Mae hi ac aelodau eraill Clwb Rhedwyr Eryri yn ymarfer yn gyson bob wythnos, ac os deil gyda'i dyfalbarhad a'i llwyddiant presennol, siawns na chlywir sôn am Rhian Lewis yn cynrychioli Cymru yn Chwaraeon y Gymanwlad neu hyd yn oed Brydain yn y Chwaraeon Olympaidd mewn blynyddoedd i ddod.



Rhian a'i gwobr ar ôl ennill ei hadran o Ras yr Wyddfa.

CYCHWYN FFRWYDROL Llanrug 1 – Llanberis 3

'Roedd dwy gôl yn nhri munud cyntaf y gêm yn ddigon i ennill lle'n y rownd nesaf i dim Llanberis, ond bu'n rhaid iddynt frwydro'n ddygn am yr 87 munud oedd yn weddill cyn i Lanrug gydnabod eu buddugoliaeth.

Prin bod unrhyw un o'r gwylwyr wedi cael amser i ddechrau gweiddi eu cefnogaeth nad oedd Llanberis wedi ennill cic gornel ar y dde. Pan ddaeth y bêl trosodd, roedd W. Giles yn rhydd o fewn y bocs i daro'r bêl i gefn y rhwyd a rhoi cychwyn bendigedig i hogia Llanberis. Ond 'doedd cefnogwyr Llanberis ddim wedi gorffen bloeddio'u boddhad nad oedd gôl arall wedi ei sgorio. Unwaith eto, W. Giles oedd y dihiryn yng ngolwg Llanrug. Casglodd y bêl yng nghanol y cae, ac er bod siawns da ganddo i basio'r bêl i'r dde neu'r chwith, sylweddolodd fod ei gyd-aelodau'n cam-ochri. Felly, rhoes dro sydyn ar ei sawdl, ac ymlaen ag ef ei hun i lawr y canol, gan adael cefnwyr Llanrug yn gwegian fel bwganod

brain yng nghanol y cae. Cyn i gôl-geidwad Llanrug sylweddoli'r hyn oedd yn digwydd, 'roedd y bêl unwaith eto'n gorwedd yn daclus yng nghefn y rhwyd.

'Roedd cefnogwyr Llanberis ar ben eu digon a rhai Llanrug yn fud hollol – sioc a digalondid. Saith munud yn ddiweddarach ac yr oedd gan griw Llanrug achos i weiddi. Rhuthrodd Hefin Pritchard tua'r gôl ond taflodd Gwilym Williams ei hun ar ei draws a 'doedd dim dwywaith ym marn y dyfarnwr fod Llanrug yn haeddu cic gosb. Sgoriodd Harold W. Roberts o'r smotyn gwyn, ac yr oedd y gêm unwaith eto o fewn cyrraedd i Lanrug. Arbediad gwych gan Gwilym Williams cyn yr hanner amser a gadwodd Llanberis ar y blaen o

DILLAD NEWYDD I DÎM LLANBERIS



TÎM PÊL-DROED LLANBERIS – Yn eu dillad newydd, sef rhodd gan Mr Alfred Hughes, Gwesty Bron Eryri, Llanberis. **Rhes ôl (chwith i'r dde):** Iolo Evans, Richard Williams, Gwilym Williams, Peter Jones, Selwyn Allsup, W. Giles. **Rhes flaen (chwith i'r dde):** Alan Parry, Gwilym Williams, Keith Davies, Gareth Jones, Ray Harding, Gareth Williams.

CWPAN NEWYDD I GYNGHRAIR ARFON I GOFIO HOGIA LLANDWROG



Dafydd Pritchard o Lanrug yn dangos y Cwpan newydd.

Ddechrau mis Ionawr ar gae pêl-droed Llanberis cyflwynwyd gan y Snowdonia Historical Aviation Group, gwpan newydd i Gynghrais Arfon a'r Cylch er cof am Awyrlu Llandwrog 1941-45 a'r bechgyn a gollodd eu bywydau wrth hedfan oddi yno. Bu tîm Awyrlu Llandwrog yn chwarae am gyfnod yng Nghynghrais Bangor a'r Cylch.

Ymchwilio i mewn i hanes Awyrlu Llandwrog yw un o brif ddiddordebau y SHAG. Collwyd gryn nifer o awyrennau yma yn ystod yr amser y bu maes awyr Llandwrog yn agored.

Mae 6 aelod o'r grŵp sef Arthur Evans a Pete Hughes o Lanberis, Dafydd Pritchard o Lanrug, Dafydd Davies a Tudor Rowlands o Sir Fôn a Dafydd Roberts o Fethesda. Buasai unrhyw un o'r uchod yn falch o gael clywed gan rywun o'r cylch â chysylltiad â maes awyr Llandwrog yn ystod y Rhyfel.

un gôl.

Yn yr ail hanner 'roedd mwy o gythraul yn nhim Llanrug, ond er pwyso'n drwm, daliai amddiffynfa Llanberis yn gadarn, ac yr oedd eu blaenwyr cyflym bob amser yn bygwth torri trwodd. Roedd cicio Gwilym Williams o gôl Llanberis yn achosi cur pen (yn llythrennol felly!) i gefnwyr Llanrug, yn enwedig i Howyn Jones, a oedd yn crefu arno i roi'r gorau iddi cyn diwedd y gêm.

Daeth y gôl a setlodd dynged Llanrug, o fewn rhyw bum munud i'r diwedd, a W. Giles oedd yn gyfrifol unwaith eto. Daeth y bêl i'w feddiant ar yr asgell dde, ac er bod pawb yn disgwyl iddo groesi'r bêl, gwelodd fod gôl-geidwad Llanrug yn sefyll oddi ar ei linell, a chododd y bêl yn daclus dros ei ben i'r rhwyd. 'Roedd yn llawn haeddu'r gymeradwyaeth – a dyna'r fuddugoliaeth yn eiddo'i Lanberis.

